RFCA
Reserve Forces' & Cadets' Association for Wales
Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru

# Cael Mantais

## Effaith a Gwerth Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru

Adroddiad Ymchwil a Gomisiynwyd gan Gymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru

Mehefin 2024



**Simon Denny, Richard Hazenberg a Claire Paterson-Young**
Sefydliad Arloesi Cymdeithasol ac Effaith
Prifysgol Northampton

University of Northampton Institute for Social Innovation and Impact

# Cydnabyddiaeth

Mawr yw dyled yr awduron i'r nifer fawr o bobl Cymru, o fewn Lluoedd y Cadetiaid a'r tu allan iddynt, a roddodd o'u hamser i rannu eu gwybodaeth a'u barn gyda ni. Heb eu help nhw, ni fyddai wedi bod yn bosibl llunio'r adroddiad hwn.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Stephen John, y Swyddog Ehangu Cadetiaid mewn Ysgolion yng Nghymru, a wnaeth waith amhrisiadwy yn trefnu cyfarfodydd, awgrymu pobl i'w cyfweld a darparu gwybodaeth.

# Cynnwys


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Ynglŷn â'r Awduron | 8 |
| Methodoleg | 10 |
| Cenhadaeth a Gweledigaeth Lluoedd y Cadetiaid | 11 |
| Effaith Lluoedd y Cadetiaid yn y DU | 13 |
| Yr Allbynnau a'r Canlyniadau a Gyflawnir gan Luoedd y Cadetiaid | 16 |
| Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru | 19 |
| Effaith Lluoedd y Cadetiaid ar Addysg yng Nghymru | 22 |
| Effaith Lluoedd y Cadetiaid ar Gyflogadwyedd yng Nghymru | 32 |
| Sut mae Lluoedd y Cadetiaid yn Cael Effaith | 39 |
| Yr Angen am Wirfoddolwyr sy'n Oedolion yn Lluoedd y Cadetiaid | 41 |
| Lluoedd y Cadetiaid a Pholisi Llywodraeth Cymru | 43 |
| Casgliadau | 46 |
| Argymhellion | 47 |
| Cyfyngiadau'r Adroddiad | 48 |
| Cyfeiriadau | 50 |




# Crynodeb Gweithredol

**Mae pobl ifanc sydd yn Lluoedd y Cadetiaid neu sydd wedi bod ynddynt ers dwy flynedd neu fwy wedi datblygu priodoleddau ac ennill sgiliau, cael profiadau ac ennill cymwysterau sy'n rhoi mantais glir iddynt dros eu cyfoedion nad ydynt yn gadetiaid mewn ceisiadau am addysg bellach ac uwch, ac am gyflogaeth. Mae'r fantais hon yn arbennig o bwysig i'r bobl ifanc hynny sydd o dan anfantais economaidd.**

---

Mae Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn cyflawni mwy nag y mae eu Cenhadaeth a'u Gweledigaeth yn gofyn amdano. Maen nhw'n cynyddu symudedd cymdeithasol yn sylweddol, yn gwella canlyniadau addysgol ac yn gwella cyflogadwyedd. Fodd bynnag, mae nifer y plant oedran ysgol uwchradd sy'n aelodau o Luoedd y Cadetiaid yn is na chyfartaledd y DU. Mae cyfle i alluogi mwy o bobl ifanc i gael y fantais mae bod yn aelod o Luoedd y Cadetiaid yn ei darparu.

**Mae bod yn aelod o Luoedd y Cadetiaid yn cael ei ystyried yn baratoad gwych ar gyfer cyflogaeth, ac mae'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr wrth ystyried ceisiadau**

Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau a ddarperir gan Luoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn rhan bwysig o 'ecosystem ddysgu' mae cadetiaid yn rhan ohoni. Mae cael cefnogaeth gan ecosystem o'r fath yn gysylltiedig â gwell datblygiad economaidd-gymdeithasol, gwell ymddygiad, hunanhyder, gwell presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol uwch.

O ystyried effeithiau negyddol pandemig COVID ar bobl ifanc yng Nghymru, yr atgyfeiriadau cynyddol i wasanaethau iechyd meddwl, yr ymddygiad heriol a phresenoldeb gwaeth yn yr ysgol; mae'r ddisgyblaeth, y sicrwydd a'r her strwythuredig a ddarperir gan Luoedd y Cadetiaid wedi dod yn fwy buddiol fyth i unigolion. Mae athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, sydd i gyd yn gweithio gyda phobl ifanc, yn unfrydol yn eu sicrwydd bod Lluoedd y Cadetiaid yn datblygu ymddygiad ac agweddau sy'n fuddiol ac yn wahanol i ymddygiad ac agweddau llawer o'r rhai nad ydynt yn gadetiaid.

Mae ethos cefnogol, disgybledig a chynhwysol Lluoedd y Cadetiaid yn apelio at bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Mae Lluoedd y Cadetiaid yn cefnogi ac yn datblygu plant sydd ag anghenion arbennig neu anableddau mewn ffyrdd mae ysgolion prif ffrwd yn ei chael hi'n anodd eu gwneud.

Fel eu cymheiriaid yng ngweddill y DU, mae cyflogwyr yng Nghymru yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio gweithwyr sydd â'r sgiliau a'r



brwdfrydedd angenrheidiol. Mae bod yn aelod o Luoedd y Cadetiaid yn cael ei ystyried yn baratoad gwych ar gyfer cyflogaeth, ac mae'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr wrth ystyried ceisiadau. Mae cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cytuno bod cyn-gadetiaid yn hynod gyflogadwy.

Mae aelodau o Luoedd y Cadetiaid – oedolion a phobl ifanc – yn gallu ennill cymwysterau galwedigaethol. Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng cymwysterau galwedigaethol a dilyniant i addysg bellach neu uwch, a chyflogaeth a dilyniant gyrfa. Mae cymwysterau galwedigaethol yn cynyddu'r fantais sydd gan gadetiaid. Fodd bynnag, mae'r cyllid i alluogi cadetiaid yng Nghymru i ennill y cymwysterau hyn, sy'n gyfyngedig, yn cael ei ddarparu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ond yn Lloegr yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau Addysg sy'n darparu'r arian. Gellid dadlau y dylai cyrff llywodraeth leol neu genedlaethol yng Nghymru ariannu mwy o gadetiaid i ennill cymwysterau galwedigaethol.

Mae gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn hanfodol i Luoedd y Cadetiaid. Mae angen adnewyddu'r garfan o wirfoddolwyr yn gyson. Mae oedolion sy'n gwirfoddoli gyda Lluoedd y Cadetiaid yn cael eu cymell gan yr awydd i 'roi rhywbeth yn ôl' drwy alluogi datblygiad pobl ifanc. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn ennill profiadau, cyfleoedd, cymwysterau a rhwydweithiau sy'n gwella eu gwaith a'u bywyd cymdeithasol. Dylai'r manteision hyn gael eu mynegi'n glir i wirfoddolwyr presennol a rhai newydd posibl.

Mae Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru'n darparu allbynnau a chanlyniadau sy'n helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ym meysydd tlodi plant, addysg, paratoi ar gyfer cyflogaeth ac iechyd a lles. Mae Lluoedd y Cadetiaid yn bwysig i'w haelodau, ac i Gymru. Mae'n bwysig bod cyfraniad Lluoedd y Cadetiaid at Gymru yn cael ei fynegi'n glir a bod llunwyr polisi, arweinwyr addysgol a chyflogwyr yn deall y cyfraniad hwnnw.

# Cyflwyniad

**Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Brif Weithredwr Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru (RFCA) ym mis Hydref 2023. Y cylch gorchwyl ar gyfer yr adroddiad oedd nodi effeithiau a chanlyniadau gweithrediad Lluoedd y Cadetiaid a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn darparu dogfen y gallai Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru ei defnyddio i hysbysu llunwyr polisi, arweinwyr addysgol, cyflogwyr, gwirfoddolwyr sy'n oedolion a rhieni/gwarcheidwaid cadetiaid presennol a rhai'r dyfodol am yr effeithiau a'r canlyniadau hyn.**

---

Mae'r adroddiad yn ychwanegu at yr ymchwil a wnaed eisoes i effeithiau Lluoedd y Cadetiaid yn y DU a gynhaliwyd gan yr Institute for Social Innovation and Impact (ISII) ym Mhrifysgol Northampton. Yn 2021, cyhoeddodd ISII ei adroddiad 'What is the social impact and return on investment resulting from expenditure on the Cadet Forces in the UK?'[1] Ychwanegwyd at yr adroddiad hwn, sy'n ganlyniad astudiaeth bedair blynedd, yn 2023 gyda'r adroddiad, 'What is the impact of the Cadet Forces in Scotland?'[2] Bydd adroddiad ychwanegol, 'The impact and value of school-based Cadet Force contingents in the UK', yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2024.

Yn ogystal, yn 2023 lluniwyd adroddiad yn archwilio effaith a gwerth cymwysterau galwedigaethol a ddarperir gan Goleg Galwedigaethol y Cadetiaid.[3] Mae adroddiadau Lluoedd y Cadetiaid yn 2021 a 2024, ac adroddiad Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid 2023, yn cynnwys canfyddiadau data a gasglwyd gan ymatebwyr yng Nghymru. Bydd y cyhoeddiad newydd hwn yn cyfeirio at y data hwn pan fydd yn berthnasol, ond bydd hefyd yn cynnwys data a gasglwyd yn benodol ar gyfer yr adroddiad 'Cael Mantais'.

Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio effeithiau Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru ar bobl ifanc (y cadetiaid) a'r gwirfoddolwyr sy'n oedolion sy'n galluogi Lluoedd y Cadetiaid i weithredu. Bydd yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r Cadetiaid ar addysg a chyflogadwyedd yng Nghymru. Bydd polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu cefnogi gan ganlyniadau Lluoedd y Cadetiaid yn cael eu nodi.

Ysgrifennwyd yr adroddiad gan yr Athro Simon Denny, yr Athro Richard Hazenberg a Dr Claire Paterson-Young o'r Institute for Social Innovation and Impact[4] ym Mhrifysgol Northampton.

---

(1) https://www.northampton.ac.uk/research/research-institutes-and-centres/institute-for-social-innovation-and-impact/social-impact-resulting-from-expenditure-on-cadets/
(2) https://www.lowlandrfca.org.uk/denny-report-the-impact-of-the-cadet-forces-in-scotland/
(3) https://qr.cvcollege.org/g/3ZOYYBXTTav
(4) Yr Athro Hazenberg yw arweinydd y Sefydliad ac mae'r Athro Denny, ers iddo ymddeol o Brifysgol Northampton yn 2018, yn gydymaith allanol i'r Sefydliad.



# Ynglŷn â'r Awduron

## Simon Denny BA, MA, PhD, Deiliad Gwobr y Frenhines am Hyrwyddo Menter

Ar ôl gadael yr ysgol, gwasanaethodd Simon Denny yn y Fyddin Brydeinig rhwng 1976 a 1986. Yna, bu'n gweithio i fanwerthwr mawr yn y DU cyn symud i Addysg Uwch ym 1992. Bu'n gweithio ym Mhrifysgol Northampton (a'i sefydliadau rhagflaenol) tan 2018. Yn Northampton, arbenigodd i ddechrau mewn dylunio rhaglenni datblygu pwrpasol ar gyfer cwmnïau; enillodd tri o'r cynlluniau hyn Wobrau Hyfforddiant Cenedlaethol. Fe wnaeth ddylunio sawl prosiect ar raddfa fawr hefyd, ennill arian ar eu cyfer a'u rheoli. Nod y prosiectau oedd helpu pobl ddifreintiedig i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth neu hunangyflogaeth. Yn 2006, enillodd Denny Wobr 'Court' y Brifysgol am wasanaethau i fenter leol.

Daeth yn Athro Entrepreneuriaeth yn 2007. Yn 2010, enillodd Wobr y Frenhines am Hyrwyddo Menter. Sefydlodd yr Institute for Social Innovation and Impact a, rhwng 2015 a 2018, ef oedd y Deon Gweithredol dros Ymchwil, Effaith ac Arloesi. Ers 2018, mae Denny wedi bod yn gweithio fel ymchwilydd ac ymgynghorydd annibynnol. Mae ei gleientiaid wedi cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Academi Amddiffyn, y Coleg Nyrsio Brenhinol, y Coleg Paratoi Ysgogiadol ar gyfer Hyfforddiant, Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid, Partneriaeth yr Ucheldiroedd a'r Grwpiau Gweundiroedd Rhanbarthol. Mae'n gydymaith allanol yr Institute for Social Innovation and Impact ym Mhrifysgol Northampton.

Mae Denny wedi cyhoeddi erthyglau academaidd niferus.

## Yr Athro Richard Hazenberg BA, MA, PhD

Mae Richard Hazenberg yn Athro Arloesi Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr yr Institute for Social Innovation and Impact ym Mhrifysgol Northampton. Mae ganddo ddiddordebau ymchwil ym meysydd arloesi cymdeithasol, cyllid cymdeithasol, arloesi gwasanaethau cyhoeddus a mesur effaith gymdeithasol ac mae wedi cyhoeddi ymchwil mewn cyfnodolion academaidd rhyngwladol niferus a adolygir gan gymheiriaid. Mae wedi cyflwyno papurau ymchwil mewn cynadleddau yn Ewrop, Asia ac America hefyd ac mae wedi cyfrannu at bolisi rhyngwladol/cenedlaethol llywodraeth drwy bapurau a

chyfarfodydd bord gron (gan gynnwys ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd; Swyddfa'r Cabinet; a Thrysorlys EF).

Mae Hazenberg wedi rheoli nifer o brosiectau ymchwil rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer y Brifysgol, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Horizon 2020, y Gronfa Loteri Fawr a Big Issue. Mae hefyd wedi cynnal gwaith ymgynghori mesur effaith gymdeithasol gyda thros 60 o sefydliadau'r trydydd sector yn y DU. Ef oedd un o'r cyd-ymchwilwyr ar yr astudiaeth i effaith gymdeithasol ac elw ar fuddsoddiad Lluoedd y Cadetiaid yn y DU, a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r Athro Hazenberg yn Olygydd Cyswllt ar gyfer y Social Enterprise Journal a'r Journal of Social Entrepreneurship, ac mae'n adolygydd ar gyfer nifer o gyfnodolion rhyngwladol a adolygir gan gymheiriaid, gan gynnwys Policy and Politics, Public Management Review, Public Money and Management, a'r Journal of Social Policy.

## Dr Claire Paterson-Young BA, MSc, PhD

Mae Claire Paterson-Young yn Athro Cyswllt yn yr Institute for Social Innovation and Impact. Un o brif nodweddion ei hymchwil yw datblygu fframweithiau mesur effaith gymdeithasol sy'n helpu sefydliadau i nodi canlyniadau cadarnhaol a negyddol, bwriadol ac anfwriadol ymyriadau a gweithgareddau. Ar hyn o bryd, mae'n Olygydd Cyswllt ar gyfer y Journal of Child and Family Studies, yn aelod o'r Bwrdd Cynghori Rhyngwladol ar gyfer y cyfnodolyn YOUNG ac yn Aelod Bwrdd Golygyddol ar gyfer y Journal of Qualitative Criminal Justice and Criminology. Mae hi'n Aelod o'r Panel Arbenigol ar gyfer y Rhwydwaith Ymchwil Gwaith a Theuluoedd ac yn Gadeirydd Grŵp Ymchwil Traws-Gymhariaeth y Rhwydwaith Ymchwil Gwaith a Theuluoedd.

Mae gan Paterson-Young dros ddeng mlynedd o brofiad o ymarfer a rheoli ym maes diogelu, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl, trais rhywiol, cyfiawnder ieuenctid ac adferol. Mae'n ymgynghori'n genedlaethol ag awdurdodau lleol, heddluoedd a sefydliadau cenedlaethol i ddatblygu gwasanaethau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae Claire yn aelod o Bwyllgor Moeseg Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Canolbarth Lloegr, Pwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG a Phwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Northampton. Mae hi'n ymddiriedolwr y Gymdeithas Genedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid (NAYJ), yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau ar gyfer annog y Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach (RSA) ac yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch (HEA). Ar hyn o bryd, mae'n Gymrawd Gwadd ym Mhrifysgol Binus yn Indonesia.

# Methodoleg

**Casglwyd data ar gyfer yr adroddiad hwn o sawl ffynhonnell eilaidd a sylfaenol. Casglwyd data eilaidd drwy adolygiad o lenyddiaeth academaidd, gan ddefnyddio ffynonellau a adolygir gan gymheiriaid lle bo modd. Yn ogystal â chwilio drwy'r llenyddiaeth academaidd, archwiliwyd adroddiadau a gynhyrchwyd gan sefydliadau'r DU sy'n ymwneud â datblygu pobl ifanc. Astudiwyd gwefannau llywodraeth genedlaethol y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig hefyd, ynghyd â gwefannau cyflogwyr a sefydliadau ieuenctid.**

---




Casglwyd data ansoddol sylfaenol newydd ar gyfer yr adroddiad hwn drwy gyfweliadau a gynhaliwyd naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein/dros y ffôn. Cynhaliwyd cyfanswm o 49 o gyfweliadau[5] gyda'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Penaethiaid = 3
- Aelodau o Dimau Arwain Ysgolion = 4
- Comanderiaid Mintai Llu Cadetiaid Cyfunol (CCF) = 4
- Gwirfoddolwyr sy'n Oedolion yn Lluoedd y Cadetiaid (CFAVs) = 8
- Hyfforddwyr Staff Ysgol = 3
- Swyddogion y Weinyddiaeth Amddiffyn = 3
- Swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau = 2
- Uwch Swyddogion Milwrol = 2
- Swyddogion Ehangu Cadetiaid mewn Ysgolion = 1
- Rheolwyr Cymdeithas y Llu Cadetiaid Cyfunol = 1
- Gweithwyr Proffesiynol Cyngor Gyrfaoedd = 2
- Swyddogion yr Heddlu = 4
- Cyflogwyr y Sector Preifat = 5
- Cyflogwyr y Sector Cyhoeddus = 4
- Rhieni cadetiaid = 3

(5) Mae hyn yn nifer fawr o gyfweliadau ar gyfer astudiaeth o'r fath.

# Cenhadaeth a Gweledigaeth Lluoedd y Cadetiaid

**Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn noddi ac yn cefnogi pum Llu Cadetiaid; y Corfflu Cadetiaid Môr, y Corfflu Cadetiaid Gwirfoddol,[6] Llu Cadetiaid y Fyddin, Cadetiaid Awyr y Llu Awyr Brenhinol a'r Llu Cadetiaid Cyfunol mewn ysgolion.**

Mae'r sefydliadau ieuenctid gwirfoddol hyn, sy'n gwisgo lifrai, yn cynnig gweithgareddau heriol a phleserus i bobl ifanc, ac yn eu paratoi i wneud cyfraniad gweithredol yn y gymuned a datblygu sgiliau bywyd gwerthfawr ac ennill cymwysterau pwysig ac ymarferol. Mae Lluoedd y Cadetiaid yn seiliedig ar draddodiadau, gwerthoedd a safonau eu rhiant-Wasanaeth ond nid ydynt yn rhan o'r Lluoedd Arfog; yn hytrach, maent yn ceisio darparu gweithgareddau strwythuredig, heriol a phleserus i bobl ifanc sy'n byw yn y DU a'u paratoi'n well ar gyfer eu rôl yn y gymuned.[7]

Mae oedolion sy'n gwirfoddoli i helpu gyda'r cadetiaid, a elwir yn Wirfoddolwyr sy'n Oedolion yn Lluoedd y Cadetiaid (CFAVs), yn cael y cyfle i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau cydnabyddedig gwerthfawr hefyd. Cydnabyddir bod y datblygiad mae CFAVs yn ei dderbyn yn eu helpu yn eu bywyd gwaith a'u bywyd personol.

Cenhadaeth Lluoedd y Cadetiaid[8] yw 'Paratoi Cadetiaid ar gyfer llwyddiant yn eu bywyd, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog a'u rôl mewn cymdeithas drwy ddarparu gweithgareddau pleserus, wedi'u trefnu'n dda ar thema filwrol mewn amgylchedd heriol a reolir yn ddiogel'. Gweledigaeth Lluoedd y Cadetiaid yw 'Darparu profiad cyfoes heriol ac ysgogol i gadetiaid sy'n datblygu ac yn ysbrydoli pobl ifanc mewn amgylchedd diogel.'[9]

**Mae'n ddiddorol nodi nad yw Cenhadaeth a Gweledigaeth Lluoedd y Cadetiaid yn cynnwys gwella symudedd cymdeithasol, gwella cyflawniad addysgol neu gynyddu cyflogadwyedd yn sylweddol**

Mae'n ddiddorol nodi nad yw Cenhadaeth a Gweledigaeth Lluoedd y Cadetiaid yn cynnwys gwella symudedd cymdeithasol, gwella cyflawniad addysgol neu gynyddu cyflogadwyedd yn sylweddol. Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio'r dystiolaeth sy'n dangos bod Lluoedd y Cadetiaid yn cyflawni'r holl bethau hyn yng Nghymru.

(6) Mae'r Corfflu Cadetiaid Gwirfoddol yn cynnwys tua 460 o gadetiaid a 150 o wirfoddolwyr sydd wedi'u lleoli mewn wyth Canolfan Lyngesol a sefydliad y Llynges Frenhinol ar hyd arfordir de Lloegr a dwyrain yr Alban. Nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.
(7) Ffynhonnell: https://www.gov.uk/guidance/the-cadet-forces-and-mods-youth-work#
(8) Ffynhonnell: Joint Service Publication 814 - Policy and Regulations for Ministry of Defence Sponsored Cadet Forces
(9) Ibid.




> "Fe wnaeth bod yn gadét fy ngwthio i y tu hwnt i lle dwi'n teimlo'n gyfforddus. Roedd heriau strwythuredig, felly roeddwn i am roi cynnig arni. Roedd yn amgylchedd diogel, felly roeddwn i'n gallu methu a rhoi cynnig arall arni. Rwy'n oedolyn sy'n gwirfoddoli i gael yr un effaith ar eraill ag a gafodd Cadetiaid arna i. Rydw i am fod yno i bobl. Rydw i eisiau bod yn athro."

*Gwirfoddolwr sy'n Oedolyn yn Lluoedd Cadetiaid y Fyddin, Caerdydd*

# Effaith Lluoedd y Cadetiaid yn y DU

**Canfyddiad allweddol a gyflwynwyd yn adroddiad ymchwil 2021 oedd bod cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar bobl ifanc, gan wella eu perfformiad yn yr ysgol a gwella eu rhagolygon cyflogaeth a gyrfa.** ***Roedd yr effaith yn arbennig o gryf ar gyfer y cadetiaid hynny sy'n dioddef anfanteision economaidd ac anfanteision eraill.***

Mae'r canfyddiad hwn yn seiliedig ar ddata meintiol a gasglwyd gan tua 5,500 o gadetiaid (253 ohonynt yn gadetiaid o Gymru, 4.6% o'r ymatebwyr) ar eu lefel hunan-effeithiolrwydd, yn ogystal â data ansoddol. Mae hunan-effeithiolrwydd yn gysyniad sy'n ymwneud â hyder, cymhelliant a hunan-barch unigolyn a'i gred yn ei allu i reoli ei amgylchedd.[10] Mae lefel uchel o hunan-effeithiolrwydd yn gysylltiedig â pherfformiad a chymhelliant addysgol a chyflogadwyedd.[11] Ledled y DU, mae pobl ifanc sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim[12] (eFSM) yn sgorio'n is ar fesurau hunan-effeithiolrwydd na phobl ifanc eraill.

***Fodd bynnag, datgelodd yr adroddiad nad oedd data hydredol yn dangos unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng ystadegau ar gyfer cadetiaid sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chadetiaid nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.***


Tybiwyd bod cadetiaid sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella hunan-effeithiolrwydd oherwydd y gweithgareddau y maent yn eu cyflawni yn Lluoedd y Cadetiaid. Mae goblygiadau'r canfyddiad hwn, a alwyd yn 'effaith Lluoedd y Cadetiaid' ('The Cadet Force effect') gan astudiaeth 2021 (gweler Ffigur 1), yn bwysig i lunwyr polisi ym mhob rhan o'r DU.




(10) Judge, T. A., Locke, E. A. and Durham, C. C. (1997). The dispositional causes of job satisfaction: a core evaluation approach. Research in organisational behaviour, 19: 151-188; Bandura, A. (1986) The explanatory and predictive scope of self-efficacy theory, Journal of Social and Clinical Psychology, 4:3, tt. 359 – 373.

(11) Zimmerman, B. (1995). Self-efficacy and educational development. In A. Bandura (Ed.), Self-Efficacy in Changing Societies (pp. 202-231). Cambridge: Cambridge University Press; Meyers, R. and Houssemand, C. (2010) Socio-professional and Psychological Variables that Predict Job Finding, Revue Européanne de Psychologie Appliqué, 60:201–219.

(12) Yn astudiaeth 2021, defnyddiwyd cymhwystra i gael Prydau Ysgol am Ddim fel procsi ar gyfer anfantais economaidd.




**Ffigur 1: Diagram yn dangos effaith Lluoedd y Cadetiaid**

Yng Nghymru, roedd 28% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020 a'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.[13] Mae rhai o'r plant hyn yn aelodau o Luoedd y Cadetiaid ac, o ganlyniad, byddant yn elwa ar 'effaith Lluoedd y Cadetiaid.' O ystyried bod lefelau uwch o hunan-effeithiolrwydd yn gysylltiedig â bod yn fwy gwydn, gwneud yn well yn yr ysgol a chael swydd, mae'n bosibl iawn bod perthyn i'r cadetiaid yn ffactor allweddol sy'n helpu person ifanc sydd o dan anfantais economaidd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn bywyd. Pan fydd llunwyr polisi a Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn cynllunio dyraniad adnoddau prin, efallai y dylid ystyried o ddifrif buddsoddi mewn minteioedd cadetiaid mewn ardaloedd ac ysgolion â lefelau uwch o amddifadedd.

Archwilir hyn yn fanylach yn yr adran ar effaith Lluoedd y Cadetiaid ar addysg yng Nghymru.

Mae'r canfyddiad allweddol hwn yn awgrymu'n gryf fod Lluoedd y Cadetiaid yn gwneud cyfraniad sylweddol at y Strategaeth Tlodi Plant i Gymru.[14] Mae effaith Lluoedd y Cadetiaid o ran cau'r bwlch hunan-effeithiolrwydd rhwng plant o ardaloedd difreintiedig a'r rhai sy'n fwy ffodus yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag Amcan 2 (Creu ffyrdd newydd allan o dlodi) y strategaeth. Mae hwn yn sylw pwysig. Fel y nodwyd uchod, mae'r data Prydeinig a data Cymru'n dangos bod plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sgorio'n is mewn mesurau hunan-barch a hunan-effeithiolrwydd, sy'n cyd-fynd â pherfformiad academaidd salach,[15] gyda thua 70% o'r plant sy'n

(13) Ffynhonnell: https://www.gov.wales/relative-income-poverty-april-2021-march-2022-html#:~:text=Between%20financial%20year%20ending%20(FYE,Wales%20for%20over%2017%20years.
(14) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-01/atodiad-4-strategaeth-tlodi-plant-cymru-fersiwn%20hawdd%20ei%20ddeall.pdf
(15) Gweler, er enghraifft: Dangosyddion Symudedd Cymdeithasol Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (Mawrth 2015) https://www.gov.uk/publications/social-mobility-indicators



gymwys i gael prydau ysgol am ddim heb gyrraedd y safonau disgwyliedig pan yn 16 oed. Ar ben hynny, mae plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol na'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac yn aml mae cael ei wahardd o'r ysgol yn arwain at berson ifanc yn methu â chael cyflogaeth neu fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch, neu hyfforddiant.[16] Er enghraifft, yn Lloegr nododd yr Adran Addysg (2017) mai dim ond 1% o'r bobl ifanc a oedd wedi'u gwahardd a gyflawnodd bum TGAU da, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg.[17] Amcangyfrifodd y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn 2017 mai cost oes gwahardd plant o'r ysgol yn y DU yw tua £392,000 yr unigolyn, wedi'i addasu i gostau 2019. Dangosodd data o finteioedd cadetiaid ac astudiaeth 2021 fod lleiafrif sylweddol (~ 10%) o gadetiaid yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[18] Yn adroddiad 2021, nodwyd bod 97% o Wirfoddolwyr sy'n Oedolion yn Lluoedd y Cadetiaid (CFAVs) sy'n athrawon, yn weithwyr cymdeithasol neu'n aelodau o'r heddlu ac a ymatebodd i arolwg yr astudiaeth yn credu bod cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid yn arbennig o fuddiol i bobl ifanc sydd dan anfantais. Mae'n ddiddorol bod yr holl ymatebwyr perthnasol o Gymru a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad hwn wedi dweud yr un peth. Mae'n amlwg bod cred eang ymhlith CFAVs sy'n ymwneud â phlant fel rhan o'u swyddi bod aelodaeth o Luoedd y Cadetiaid yn werthfawr i blentyn sy'n dioddef o amddifadedd economaidd.

**Mae cred eang ymhlith CFAVs sy'n ymwneud â phlant fel rhan o'u swyddi bod aelodaeth o Luoedd y Cadetiaid yn werthfawr i blentyn sy'n dioddef o amddifadedd economaidd**

---

(16) https://www.jrf.org.uk/mpse-2015/free-school-meal-status-and-educational-attainment-age-16

(17) Mae'n galonogol bod nifer y plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn yr Alban wedi gostwng yn ddiweddar, gweler https://www.gov.scot/publications/summary-statistics-schools-scotland/pages/8/ Fodd bynnag, nodir bod gwaharddiadau'n fwy cyffredin ymhlith plant sydd angen cymorth ychwanegol a'r rhai sy'n byw mewn ardal fwy difreintiedig.

(18) Y ffigur hwn yw'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Mewn minteioedd cadetiaid mewn rhai ardaloedd e.e. rhannau o Glasgow, rhannau o Fanceinion Fwyaf, rhannau o'r Ogledd Cymru, mae mwy na 50% o'u cadetiaid wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mewn rhannau mwy cyfoethog o'r DU, weithiau mae yna finteioedd heb unrhyw gadetiaid sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

# Yr Allbynnau a'r Canlyniadau a Gyflawnir gan Luoedd y Cadetiaid

**Mae cymryd rhan[19] yn Lluoedd y Cadetiaid yn arwain at bobl ifanc yn cyflawni allbynnau ar ffurf priodoleddau gwell. Dyma'r priodoleddau allweddol:**

- y gallu i **gyfathrebu'n** glir, i gynulleidfaoedd amrywiol, drwy gyflwyniadau ffurfiol ac anffurfiol ac mewn trafodaethau a chyfweliadau,
- y gallu i **arwain** grŵp o bobl i gyflawni amcan. Mae'r sgil allweddol hon yn cynnwys y gallu i gynllunio a chyfleu'r cynllun hwnnw, yn ogystal â gallu rheoli, ysgogi a sbarduno tîm i lwyddo,
- y **gwydnwch** i ddal ati, hyd yn oed pan fydd pethau'n mynd o'i le neu pan fo'r sefyllfa'n heriol,
- y gallu i weithio fel aelod o **dîm**, rhannu barn a helpu eraill, a gallu derbyn cyfarwyddiadau a gorchmynion gan arweinydd y tîm ar yr un pryd,
- y gallu i ddefnyddio **sgiliau cymdeithasol**, gan gynnwys ymddygiadau gwahanol, i gyflawni canlyniadau cadarnhaol,
- y ddealltwriaeth nad yw pawb yr un fath, a'r gallu i dderbyn **amrywiaeth** a gweithio gyda'r gwahanol ddoniau sydd gan bobl,
- yr **hyder** personol i ddefnyddio sgiliau allweddol mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyda gwahanol bobl.

O ganlyniad i'r allbynnau hyn, a datblygu a defnyddio'r priodoleddau allweddol hyn, mae pobl ifanc a chymdeithas yn profi canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- **Mwy o symudedd cymdeithasol[20]**
- **Gwell canlyniadau addysgol** (o ganlyniad uniongyrchol i bresenoldeb ac ymddygiad gwell)
- **Gwell lles meddyliol a chorfforol[21]**
- **Gwell cyflogadwyedd**
- Bod yn llai agored i niwed/mwy o wydnwch (i fwlio ac i sefydliadau troseddol ac eithafol)[22]
- Cysylltiadau cymunedol cynhwysol ar draws dimensiynau ethnig, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol.[23]

(19) Mae cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid yn cael ei ddiffinio fel y bobl ifanc hynny sy'n treulio o leiaf 12 mis yn y Cadetiaid.
(20) Y pwyntiau hynny mewn print bras yw'r rhai lle'r oedd y dystiolaeth yn arbennig o gryf.
(21) Canfu'r astudiaeth fod cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid yn gwella iechyd a lles cadetiaid, gan gynhyrchu elw blynyddol ar fuddsoddiad o tua £95 miliwn i'r DU.
(22) Mae CFAVs yn rhannu rhai o'r effeithiau cadarnhaol hyn. Byddwn yn trafod y thema hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad.
(23) O ystyried y sefyllfa hanesyddol unigryw yng Ngogledd Iwerddon, gallai rôl Lluoedd y Cadetiaid o ran cefnogi cydlyniant cymunedol fod yn bwysig. Yn wir, mae'r data wedi dangos bod sefyllfa unigryw Lluoedd y Cadetiaid fel grŵp ieuenctid mewn lifrai yng Ngogledd Iwerddon yn helpu i integreiddio pobl ifanc o gymunedau Catholig a Phrotestannaidd na fyddent yn cymysgu yn y gymuned fel arall o reidrwydd.



Ledled y DU, roedd Cadetiaid a gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn elwa'n fawr ar y cyfle i ennill cymwysterau hefyd.

- Mae Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid (CVC)[24] yn cynnig cymwysterau galwedigaethol i Luoedd y Cadetiaid sy'n sicrhau elw cadarnhaol iawn ar fuddsoddiad sydd, mewn llawer o achosion, yn gallu newid bywyd. Roedd gwerth oes cymwysterau galwedigaethol CVC ar gyfer carfan 2018 - 2019 o ddysgwyr difreintiedig yn unig yn dod i tua £27.2 miliwn i ferched, ac £81.7 miliwn i fechgyn, cyfanswm o £108.9 miliwn. Nid oes modd cyfrifo gwerth cymwysterau CVC ar gyfer ei holl ddysgwyr, ond mae'n ffigur sylweddol iawn.
- Mewn llawer o achosion, arweiniodd ennill cymhwyster galwedigaethol gyda CVC at newid rhagolygon gyrfa CFAVs. Canfuwyd bod cymwysterau galwedigaethol yn arbennig o bwysig i CFAVs nad oes ganddynt lawer o gymwysterau addysgol ffurfiol, os o gwbl.
- Mae pob un o'r tua 29,000 o CFAVs yn darparu tua 400 awr o wirfoddoli y flwyddyn, sef cyfanswm o 11.6 miliwn awr y flwyddyn. Yn ogystal â chymwysterau, gall CFAVs gael manteision eraill o'u gwirfoddoli, megis gwell rhagolygon gyrfa a buddion iechyd y gellir eu cyfrifo fel rhai sy'n werth tua £479 miliwn y flwyddyn.

Nod yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad newydd hwn oedd nodi a oedd yr allbynnau a'r canlyniadau a nodwyd yn adroddiad 2021 yn cael eu mwynhau gan gadetiaid a CFAVs yng Nghymru.

(24) Adeg astudiaeth 2021, roedd Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid yn cael ei alw'n CVQO.


ROYAL
AIR FORCE
AIR CADETS
the next generation

# Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru

Mae gan Gymru 235 o 'unedau' Lluoedd y Cadetiaid, fel y dangosir yn Nhabl 1.

| Math o uned | Nifer |
|---|---|
| Llu Cadetiaid y Fyddin (ACF) | 136[25] |
| Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol | 65 |
| Cadetiaid Môr | 23 |
| Llu Cadetiaid Cyfunol (CCF) | 11 |

**Tabl 1: Nifer yr unedau Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru, Tachwedd 2023**

Roedd y Cadetiaid yn y CCF wedi'u rhannu rhwng naw ysgol (pedair ysgol uwchradd wladol, a phum ysgol breifat) a dau Goleg Addysg Bellach.

Dangosir nifer y cadetiaid a CFAVs yng Nghymru ar 1 Ebrill 2022 yn Nhabl 2:[26]

| Categori | Nifer | % sy'n Fenywaidd |
|---|---|---|
| Cadetiaid Cymunedol | 3,980 | 33% |
| CCF | 650 | 43% |
| Cadetiaid Cymunedol CFAV | 1,260 | 32% |
| CFAV CCF | 70 | 29% |

**Tabl 2: Nifer y Cadetiaid a'r CFAVs yng Nghymru, Ebrill 2022**

I ddarparu cyd-destun, dangosir nifer y cadetiaid a CFAVs yn y DU gyfan yn Nhabl 3:[27]

| Categori | Nifer | % sy'n Fenywaidd |
|---|---|---|
| Cadetiaid Cymunedol | 83,800 | 33% |
| Cadetiaid CCF | 51,490 | 38% |
| Cadetiaid Cymunedol CFAV | 21,781 | 32% |
| CFAV CCF | 4,170 | 36% |

**Tabl 3: Nifer y Cadetiaid a'r CFAVs yn y DU, Ebrill 2023**

Felly, yng Nghymru roedd 4,630 o gadetiaid, sef 4.7% o'r Cadetiaid Cymunedol ac 1.3% o Gadetiaid CCF yn y DU. Roedd tua 54% o'r cadetiaid hyn yn gwisgo lifrai cadetiaid y Fyddin, roedd 30% yn gwisgo lifrai Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol ac roedd 16% yn gwisgo lifrai Cadetiaid Môr. Mae 4.6% o gyfanswm poblogaeth y DU yng Nghymru,[28] felly gallai nifer y cadetiaid yng Nghymru ymddangos yn gynrychiadol. Fodd bynnag, mae nifer y cadetiaid mewn unedau CCF yn gymharol isel, gan adlewyrchu'r nifer fach o ysgolion sydd wedi manteisio ar y cyfle i gael Llu Cadetiaid Cyfunol. Ar ben hynny, mae'r 4,360 o gadetiaid yng Nghymru bron i gyd yn ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd.[29]

(25) Ffynhonnell: https://armycadets.com/county/
(26) Data a ddarparwyd gan RFCA dros Gymru
(27) Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/mod-sponsored-cadet-forces-statistics-2023/mod-sponsored-cadet-forces-1-april-2023
(28) Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru oedd 3,107,500, cyfanswm sy'n cyfateb i tua 4.6% o gyfanswm poblogaeth y DU. Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html:
(29) Mae gan Gadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol ychydig o gadetiaid hŷn sydd dros 18 oed, felly nid ydynt yn yr ysgol. Mae'r Cadetiaid Môr yn cynnwys rhai plant sy'n dal i fod yn yr ysgol gynradd.

Ym mis Ebrill 2021, roedd tua 189,000 o blant mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru,[30] gyda thua 174,000 ohonynt yn un o'r 178 o ysgolion uwchradd gwladol.[31] Felly, mae tua 2.4% o'r plant cymwys yng Nghymru yn aelodau o Luoedd y Cadetiaid. At ddibenion cymharu, mae tua 3.193 miliwn o blant mewn ysgolion uwchradd yn y DU,[32] ac mae tua 4.2% o'r plant cymwys mewn ysgolion uwchradd yn y DU yn gadetiaid. Mae'r cyfrifiadau hyn yn dangos bod gan Gymru lai o gadetiaid na'r disgwyl. O ystyried yr allbynnau a'r canlyniadau i blant a nododd astudiaeth ymchwil 2021, y casgliad yw bod llai o blant yng Nghymru yn elwa ar gymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid nag y gellid ei ddisgwyl.

**Mae'r cyfrifiadau hyn yn dangos bod gan Gymru lai o gadetiaid na'r disgwyl**



## Ethnigrwydd Cadetiaid a CFAVs

Yng Nghyfrifiad mis Mawrth 2021, nododd 93.8% o drigolion Cymru eu bod yn 'Wyn.'[33] Mae golwg gychwynnol ar y data ar ethnigrwydd cadetiaid a CFAVs yng Nghymru yn awgrymu bod Lluoedd y Cadetiaid yn fwy amrywiol na'r disgwyl, gweler Tabl 4:

| Categori | % sy'n dweud eu bod yn 'Wyn' |
|---|---|
| Cadetiaid Cymunedol | 89% |
| Cadetiaid CCF | 58% |
| Cadetiaid Cymunedol CFAV | 72% |
| CFAV CCF | 86% |

**Tabl 4: Nifer y Cadetiaid a'r CFAVs a ddywedodd eu bod yn 'Wyn'**

Fodd bynnag, rhaid trin y ffigurau a ddangosir yn Nhabl 4 yn ofalus iawn oherwydd y nifer fawr o gadetiaid a CFAVs y mae eu hethnigrwydd yn 'anhysbys.'

## Unedau Cadetiaid ac Ardaloedd o Amddifadedd Lluosog

Fel y nodwyd uchod, canfyddiad allweddol adroddiad 2021 oedd bod cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar bobl ifanc, gan wella eu perfformiad yn yr ysgol a gwella eu rhagolygon cyflogaeth

(30) https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ebrill-2021-html
(31) Roedd tua 5,200 o blant mewn ysgolion arbennig a thua 11,000 o blant mewn ysgolion annibynnol. Ffynhonnell: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-type
(32) Ffynhonnell: https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/national-pupil-projections
(33) Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html:



a gyrfa. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr effaith hon yn arbennig o gryf ar gyfer y cadetiaid hynny sy'n dioddef anfanteision economaidd ac anfanteision eraill. Felly, mae'n berthnasol nodi a yw Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn gweithredu mewn ardaloedd difreintiedig.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru.[34] Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALlC yn graddio holl ardaloedd bach Cymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a gynhyrchir gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru. Daearyddiaethau'r Cyfrifiad o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yw ardaloedd bach. Mae'r mynegai llawn yn cael ei ddiweddaru bob pedair i bum mlynedd. Cyhoeddwyd y mynegai diweddaraf yn 2019.

Os yw lleoliad unedau Lluoedd y Cadetiaid yn cael eu mapio yn erbyn ardaloedd o amddifadedd lluosog, mae darlun diddorol yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, mae MALlC 2019 yn rhannu'r Rhyl yn barthau gwahanol. Mae parthau yn y Gorllewin yn safleoedd 1, 2 ac 11 ym MALlC ac mae'r parthau yn y De-orllewin yn safleoedd 19 a 57. Mae'n galonogol nodi bod unedau ACF, Cadetiaid Môr a Chadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol yn gweithredu yn y dref. Yn yr un modd, mae unedau Lluoedd y Cadetiaid yn holl ddinasoedd a threfi mawr Cymru, lle mae ardaloedd o amddifadedd lluosog sylweddol. Er nad oes union gydberthynas rhwng lleoliad unedau Lluoedd y Cadetiaid ac ardaloedd o dlodi, gellir dod i'r casgliad bod Lluoedd Cadetiaid y Fyddin, Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol a'r Cadetiaid Môr yn gweithredu mewn sawl ardal lle gallant gael effaith gadarnhaol sylweddol iawn.

**Mae'n berthnasol nodi a yw Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn gweithredu mewn ardaloedd difreintiedig**

(34) Gweler: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation

# Effaith Lluoedd y Cadetiaid ar Addysg yng Nghymru

> **"Mae gan blant heddiw lai o syniad o ffiniau, a llai o barch tuag at eraill. Maen nhw'n fwy ymwybodol o'r hyn y gallan nhw ei wneud heb gael eu cosbi."**

*Athro, Ysgol Uwchradd yng Nghymru*

Dylid gweld effaith Lluoedd y Cadetiaid ar addysg yng Nghymru yng nghyd-destun effeithiau pandemig COVID ar blant, yn enwedig pobl ifanc yn eu harddegau. Cadarnhaodd athrawon, gweithwyr ieuenctid a swyddogion yr heddlu a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon ganfyddiadau Waite et al. (2021) a McKinlay et al. (2022) bod diffyg cymdeithasu plant yn ystod y cyfyngiadau symud wedi effeithio'n negyddol ar eu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol. Roedd y diffyg trefn ddyddiol a oedd gan lawer o blant yn ystod y cyfyngiadau symud wedi annog diogi ac ynysigrwydd a lleihau hyder a chymhelliant. Disgrifiodd athrawon, gweithwyr ieuenctid a swyddogion yr heddlu sut mae ymddygiad ac agwedd llawer o blant wedi newid er gwaeth, gyda llai o dderbyn awdurdod a mwy o ffocws arnyn nhw eu hunain. Dywedodd un gweithiwr ieuenctid, *"mae'n ymddangos nawr fod ymdeimlad o 'fi, fi, fi', bod plant yn llai parod i dderbyn bod gan eraill farn a gwerthoedd a allai fod yn wahanol."* Mae'n bwysig nodi bod Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, wedi ysgrifennu mewn erthygl ar gyfer y Times Education Supplement *"too many teachers tell me they are seeing challenging behaviour, worse attendance and lower level of literacy and numeracy."*[35]

**Dywedodd swyddog heddlu a gafodd ei gyfweld mai ei brofiad ef oedd bod pobl ifanc yn fwy nerfus, yn fwy swil, yn cael eu sbwylio gormod ac yn treulio mwy o amser yn y tŷ nag oedden nhw hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl**

Dywedodd swyddog heddlu a gafodd ei gyfweld mai ei brofiad ef oedd bod pobl ifanc yn fwy nerfus, yn fwy swil, yn cael eu sbwylio gormod ac yn treulio mwy o amser yn y tŷ nag oedden nhw hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl.

Yn ogystal, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant sy'n teimlo'n ofidus,[36] tra bod y pandemig wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad academaidd plant. Ym mis Tachwedd 2023, adroddodd Newyddion y BBC fod safonau darllen plant 7 i 14 oed yng Nghymru wedi dirywio, gyda

(35) https://www.tes.com/magazine/analysis/general/jeremy-miles-wales-education-support-schools 22 Tachwedd 2023

(36) Gweler, er enghraifft, https://www.theguardian.com/society/2023/jan/03/child-referrals-for-mental-health-care-in-england-up-39-in-a-year a https://healthnews.com/news/around-76-increase-in-referrals-to-youth-mental-health-services-since-2019/

pherfformiad yr hyn sy'n cyfateb i 11 mis y tu ôl i ganlyniadau yn 2020 - 2021.[37]

O ystyried y cyd-destun digalon hwn, mae'n ddiddorol adolygu'r dystiolaeth ar sut mae cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid, naill ai unedau cadetiaid yn y gymuned, neu finteioedd CCF, yn effeithio ar addysg yng Nghymru. Mae data ansoddol a meintiol a gasglwyd gan y tîm ymchwil ar gyfer astudiaeth 2021 yn dangos bod bod yn gadét mewn mintai Gymunedol yn effeithio ar ymddygiad yn yr ysgol mewn sawl ffordd o ganlyniad i ddatblygu hunanddisgyblaeth ac ymdeimlad o ddyhead (sy'n gysylltiedig â gwell hunan-effeithiolrwydd). Ar ben hynny, mae rhai unedau cymunedol yn cymryd camau bwriadol i geisio gwella canlyniadau addysgol eu cadetiaid. Mae'r gweithgareddau STEM a seiberddiogelwch[38] a ddarperir gan Luoedd y Cadetiaid yn uniongyrchol berthnasol i waith ysgol. Yn ogystal, mae Lluoedd y Cadetiaid yn defnyddio methodolegau dysgu newydd a gwahanol i ysgolion, gan alluogi pobl ifanc i ddatblygu ffyrdd newydd o gymhathu gwybodaeth. Mae'r hunanddisgyblaeth a ddatblygir gan Luoedd y Cadetiaid yn rhoi mwy o ffocws a mwy o gymhelliant i lawer o gadetiaid wneud gwaith ysgol.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach yn yr adran 'Sut mae Lluoedd y Cadetiaid yn Cael Effaith?'

> **"Mae bod yn gadét wedi dangos i mi os ydw i'n gwneud y gwaith fy mod i'n cael fy ngwobrwyo. Rwy'n credu mai'r math hwnnw o system wobrwyo sydd wedi gwneud i mi feddwl, 'Wel, os bydda i'n rhoi fy meddwl ar waith yn yr ysgol ac os bydda i'n gwneud yn dda, bydda i'n cael fy ngwobrwyo gyda graddau da a TGAU da."**

*Cadét*

> **"Mae bod yn gadét wedi fy rhoi i yn y sefyllfa lle dwi'n sylweddoli bod angen i mi benderfynu beth dwi am ei wneud gyda fy mywyd. Mae hyn wedi dangos i mi os bydda i'n rhoi fy meddwl ar waith, galla i wneud beth bynnag dwi eisiau. Felly mae wedi newid y ffordd dwi'n gweld yr ysgol"**

*Cadét*



(37) Pupil reading standards fall in Wales since Covid - BBC News 24 Tachwedd 2023
(38) Gan gynnwys CyberFirst https://www.ncsc.gov.uk/cyberfirst/overview

Fel y nodwyd uchod, dim ond 14% o'r cadetiaid yng Nghymru sy'n aelodau o CCF, gyda 650 o gadetiaid mewn 11 o finteioedd CCF. Casglodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2023 i allbynnau a chanlyniadau'r CCF (i'w gyhoeddi yn 2024) dystiolaeth gan benaethiaid, athrawon, CFAVs CCF, swyddogion yr heddlu, gweithwyr ieuenctid, cyflogwyr a staff derbyn prifysgolion. Ymwelwyd ag ysgolion ym mhob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru, i gasglu data.[39] Roedd y dadansoddiad o ddata ar effeithiau Minteioedd CCF yng Nghymru, a data a gasglwyd yn benodol ar gyfer yr astudiaeth hon, yn nodi saith pennawd a oedd yn disgrifio ffyrdd yr oedd cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid o fudd i gadetiaid, ac athrawon a oedd yn CFAVs.

## Barn Penaethiaid

Fel rhan o'r ymchwil i effaith minteioedd CCF a gynhaliwyd yn 2023, cynhaliwyd arolwg o benaethiaid yn y DU a oedd â CCFs. Gofynnwyd i benaethiaid ymateb[40] i 13 datganiad gyda'r nod o nodi a oeddent yn credu bod eu CCF yn darparu gwerth i'w hysgol. Mae Tabl 5 yn crynhoi eu hymatebion.



(39) Cafodd personél o bump o'r ysgolion neu'r Colegau AB a oedd â Minteioedd CCF eu cyfweld, sy'n golygu bod Cymru wedi'i gorgynrychioli ychydig yn y sampl ymchwil.
(40) Defnyddio Graddfa Likert gyda'r opsiynau Anghytuno'n Llwyr, Anghytuno, Ansicr, Cytuno, a Cytuno'n Llwyr.

| Datganiad Gwerth - Mae Mintai CCF yr Ysgol... | Y Ganran a oedd yn Cytuno'n Llwyr neu'n Cytuno â'r Datganiad |
|---|---|
| yn cael effaith gadarnhaol ar wydnwch disgyblion sy'n gadetiaid | 98.9 |
| yn gwneud cyfraniad pwysig at y gweithgareddau cyfoethogi mae'r ysgol yn eu darparu | 94.4 |
| yn fuddsoddiad da i'r ysgol | 91.6 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion sy'n gadetiaid | 91.6 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chymhwysedd yr athrawon hynny sy'n wirfoddolwyr sy'n oedolion | 86.1 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cyffredinol yr ysgol | 83.3 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion sy'n gadetiaid | 77.7 |
| yn gwneud cyfraniad cadarnhaol pan fydd yr ysgol yn cael ei harolygu | 77.7 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar ddyheadau ac uchelgeisiau gyrfa disgyblion sy'n gadetiaid | 75.0 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy'n gadetiaid | 74.9 |
| yn fy helpu i a'r uwch dîm rheoli i gyflawni amcanion penodol | 69.4 |
| yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gadetiaid | 66.6 |
| wedi lleihau nifer y gwaharddiadau o'r ysgol | 19.5 |

**Tabl 5: Crynodeb o Ymatebion Penaethiaid i Ddatganiadau Gwerth sy'n Ymwneud â Minteioedd Cadetiaid**

Mae'n amlwg, ac eithrio effaith y fintai cadetiaid ar waharddiadau, fod mwyafrif helaeth y Penaethiaid yn cytuno'n llwyr neu'n cytuno â'r holl ddatganiadau gwerth.[41] Mae'r ymatebion i'r datganiadau gwerth ynghylch a yw'r fintai cadetiaid yn fuddsoddiad da i'r ysgol, a'i heffaith ar gyfoethogi, lles a gwydnwch disgyblion yn hynod gadarnhaol. Mae'r gred bod athrawon yn cael budd proffesiynol o'u hymwneud â'r fintai cadetiaid yn ddiddorol, a gallai fod o ddiddordeb i'r rhai sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon.

Mae'n bwysig nodi bod penaethiaid ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig wedi arsylwi dro ar ôl tro nad oes gan rai disgyblion hyder, bod ganddynt ddyheadau cyfyngedig ac nad ydynt yn derbyn cefnogaeth eu rhieni yn eu haddysg, sy'n gysylltiedig â dyheadau is (Frostick et al., 2016). Sylwodd penaethiaid nad yw rhai plant

(41) Gellir esbonio'r ymateb i'r datganiad am waharddiadau drwy nodi bod rhai o'r penaethiaid a ymatebodd i'r arolwg yn dod o ysgolion annibynnol (gyda chyfraddau gwahardd isel iawn) a'r ffaith nad oedd ysgolion eraill wedi defnyddio eu minteioedd CCF na'u staff i fynd ati i ailymgysylltu â myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio.



yn teithio y tu hwnt i'w hardal leol, er enghraifft, aeth mintai CCF o ysgol yn y De â 30 o gadetiaid i Lundain ym mis Mawrth 2023; nid oedd 11 ohonynt wedi bod y tu allan i'w cwm lleol erioed o'r blaen, a dim ond pump oedd wedi bod i Lundain o'r blaen. Fodd bynnag, er gwaethaf proffil cymharol ddifreintiedig y cadetiaid, enillodd CCF yr ysgol gyfun hon y gystadleuaeth Cadet Cambrian Patrol,[42] digwyddiad cenedlaethol heriol, yn 2019. Cafodd tri o'i chadetiaid eu dewis i deithio o amgylch Canada hefyd (dim ond 10 cadét y flwyddyn sy'n cael eu dewis ar gyfer y daith o bob rhan o'r DU). Cadarnhaodd y Pennaeth fod y CCF yn rhoi cyfle i gadetiaid newid eu dyheadau a'u hyder a 'rhoi cyfalaf diwylliannol gwych iddyn nhw,' gan eu galluogi i gystadlu yn erbyn cadetiaid o ysgolion preifat mewn gweithgareddau a pherfformio'n dda.

***Yr hyn sy'n hollbwysig yw, gan fod gweithgareddau CCF naill ai'n rhad ac am ddim neu'n derbyn cymorthdal sylweddol, maen nhw'n fforddiadwy i bawb.***

## Effeithiau ar Athrawon

Mae tystiolaeth o'r holl gyfweliadau â phenaethiaid ac athrawon sy'n ymwneud â'r CCF yn dangos bod cyfrannu fel gwirfoddolwr sy'n oedolyn gyda mintai CCF yn cynyddu cysylltiad yr athro â'r ysgol, yn helpu ei ymdeimlad o berthyn ac yn datblygu ei ddealltwriaeth o'r disgyblion, gan arwain at berthynas well â nhw. Mae gan ddisgyblion berthynas wahanol a mwy cadarnhaol gydag athrawon sydd yn y CCF. Honnir bod gwisgo'r un lifrai â'r cadetiaid yn gwneud yr athro'n 'un ohonon ni,' yn rhan o deulu'r CCF. Yn y CCF, mae'n rhaid i athrawon a disgyblion ofalu am ei gilydd; mae'n wahanol i ysgol brif ffrwd. I athrawon, mae hyfforddiant CCF yn 'agoriad llygad' yn aml; mae bod yng nghwmni pobl filwrol yn wahanol, maen nhw'n dysgu sgiliau a thechnegau hyfforddi newydd na fydden nhw'n eu cael yn unman arall. Mewn cyfweliadau, dywedodd Penaethiaid a gwirfoddolwyr sy'n oedolion sy'n athrawon fod yr hyfforddiant a ddarparwyd i athrawon sy'n ymwneud â'r CCF yn rhoi safbwyntiau newydd am ddysgu ac addysgu, modelau ymddygiad

(42) https://armycadets.com/news/cambrian-patrol-whats-it-really-like/

newydd gyda grwpiau o ddisgyblion, yn gwella hyder ac yn ennyn mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb yn yr ysgol, priodoleddau sy'n debyg iawn i'r rhai a nodwyd gan Eison (1990). Mae bod yn y CCF yn galluogi athrawon i gyfarfod â staff o adrannau eraill a gwella eu sgiliau a'u rhwydweithiau cymdeithasol hefyd. Honnwyd bod dod yn wirfoddolwr sy'n oedolyn yn y CCF yn arbennig o bwysig i'r athrawon hynny nad oeddent yn hyderus yn yr ystafell ddosbarth. Ystyriwyd hefyd bod cyrsiau arweinyddiaeth CCF yn werthfawr i athrawon sydd am gael dyrchafiad. Tynnodd un pennaeth sylw at y dulliau hunanasesu a ddefnyddiwyd gan hyfforddwyr CCF a oedd wedi creu cymaint o argraff arno fel bod yr ysgol gyfan yn newid ei system ar gyfer arsylwi ar athrawon i gynnwys agweddau ar yr hyn mae gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn y CCF yn ei ddysgu. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr holl Benaethiaid a gyfwelwyd wedi nodi nad oedd 'rhaglen ddatblygu unigryw Lluoedd y Cadetiaid' a ddarperir i athrawon sy'n ymwneud â'r CCF ar gael yn unman arall.

## Effeithiau ar Werthoedd a Safonau

**"Mae'r CCF yn cymryd rhan mewn digwyddiadau fel ffeiriau cymunedol a Sul y Cofio. Rydyn ni'n cael adborth cadarnhaol gan y gymuned, mae pobl yn parchu'r gwerthoedd a'r safonau a ddatblygir gan y CCF."**

*Athro, Ysgol Wladol yng Nghymru*

I bob ysgol, boed yn annibynnol neu yn y sector gwladol, pwysleisiodd penaethiaid a gwirfoddolwyr sy'n oedolion fod eu CCF yn ffordd ardderchog o atgyfnerthu gwerthoedd a safonau'r ysgol. Roedd y CCF yn ffordd ardderchog o helpu i gyflawni cenhadaeth yr ysgol ac roedd yn helpu i gyflawni canlyniadau cyffredinol ysgolion.

**"Mae'r CCF yn enfawr, mae'n rhan o'r hyn sy'n ein galluogi ni, mae'n fwy na ni; mae'n rhoi cyfalaf diwylliannol mawr i bobl ifanc."**

*Pennaeth, Ysgol Wladol yn y De*

Er bod pob aelod o staff ysgolion annibynnol yn gwerthfawrogi eu minteioedd CCF yn fawr, i lawer o ysgolion CEP disgrifiwyd y CCF fel cyfrwng i drawsnewid yr ysgol a chyfleoedd bywyd llawer o'i disgyblion. Dywedodd pennaeth un ysgol CEP yng Nghymru, *"mae'r CCF yn rhoi cyfle i ddisgyblion yn yr ysgol hon newid a datblygu eu bywydau, mae ganddi gymaint mwy i roi i gadetiaid na CCF mewn ysgol breifat,"* a dywedodd pennaeth arall, *"nid yw'r CCF yn ychwanegiad i'r ysgol, mae'n rhan o'r hyn rydyn ni'n ei wneud."*



## Camu Ymlaen i Addysg Bellach ac Addysg Uwch

> **"Mae bod yn y CCF yn dda i'r CV, mae'n helpu'r myfyriwr i sefyll allan, mae'n dda i'r cyfweliad ac mae ganddyn nhw rywbeth ar wahân i waith ysgol i siarad amdano."**

*Pennaeth, Ysgol Annibynnol yng Nghymru*

Mae penaethiaid yn credu bod bod yn gadét yn helpu eu disgyblion i gael lle mewn colegau addysg bellach a phrifysgolion. Ar gyfer prosiect ymchwil CCF, astudiwyd gwefannau mynediad prifysgolion a cholegau i asesu a oedd y gred hon yn ddilys. Nid yw'n syndod i'r tîm ganfod bod sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn annog darpar fyfyrwyr i sôn am weithgareddau a chyflawniadau anacademaidd, allgyrsiol yn eu datganiadau personol. Mae gwefan UCAS yn dweud bod angen i ymgeiswyr i brifysgolion *"write about your personal skills and achievements. Universities like to know the abilities you have that'll help you on the course, or generally with life at university. Try to link any experience to skills or qualities that'll make you successful."*[43] Mae prifysgolion unigol yn atgyfnerthu'r neges hon, *"extracurricular activities can be where you really set yourself apart from other applicants. So, if you have any interests, hobbies or experiences that relate to your subject of choice or showcase your personal qualities, make room for them."*[44] Ar ben hynny, mae tua 73 y cant o swyddogion derbyn prifysgolion wedi dweud eu bod yn edrych am dystiolaeth o allu i weithio'n dda mewn grwpiau.[45] Cadarnhaodd cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol cyngor gyrfaoedd ei bod yn bwysig crybwyll gweithgareddau anacademaidd fel y CCF gan eu bod yn dangos bod gan yr ymgeisydd sgiliau cymdeithasol uwch.

## Camu Ymlaen i Gyflogaeth

Dywedodd pob ysgol a choleg a roddodd wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn eu bod yn sicr bod aelodaeth o'r CCF wedi helpu eu myfyrwyr i gael swyddi a chael gyrfaoedd llwyddiannus. Archwilir y pwnc hwn yn fanylach yn yr adran ar 'Effaith Lluoedd y Cadetiaid ar Gyflogadwyedd yng Nghymru' isod.

## Ymgysylltu â'r rhai sydd wedi Ymddieithrio

Gall mintai CCF ddarparu newid mawr i ddisgyblion sydd wedi dadrithio sy'n aml yn golygu eu bod yn aros mewn addysg. Dywedodd pennaeth ysgol yng Nghymru sut mae rhai plant aflonyddgar wedi cael eu hanfon i siarad â Hyfforddwr Staff Ysgolion (SSI) CCF am safonau a chyfleoedd yn lle mynychu gwersi.

> **Gall mintai CCF ddarparu newid mawr i ddisgyblion sydd wedi dadrithio sy'n aml yn golygu eu bod yn aros mewn addysg**

(43) https://www.ucas.com/undergraduate/applying-university/writing-personal-statement/how-write-personal-statement
(44) https://www.theuniguide.co.uk/advice/personal-statements/personal-statement-secrets-universities-reveal-all
(45) https://www.timeshighereducation.com/student/advice/top-7-qualities-universities-look-student-applicants

O ganlyniad, roedden nhw wedi ymuno â'r CCF ac wedi ailgysylltu â'r ysgol mewn ffordd gadarnhaol iawn. Cafodd rôl yr SSI ei chrybwyll yn benodol gan rai penaethiaid fel rôl bwysig yn y frwydr i leihau gwaharddiadau gan ei bod yn darparu 'man diogel' i ddisgyblion siarad am eu problemau. Mae rhai ysgolion yn annog pob disgybl, nid cadetiaid yn unig, i siarad â'r SSI os ydyn nhw'n teimlo dan straen. Disgrifiodd un SSI sut y daeth i mewn i'r ysgol un prynhawn yr wythnos i fentora bachgen ifanc nad oedd yn gadét, ond a elwodd ar y gefnogaeth a roddwyd. Fodd bynnag, er bod rhai ysgolion yn defnyddio eu minteioedd CCF a'u staff (yn enwedig yr SSI) fel rhan o strategaeth i leihau aflonyddwch, triwantiaeth a gwaharddiadau, nid yw'n dacteg sydd wedi'i mabwysiadu'n gyffredinol.

## Cefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

> **"Dwi'n falch iawn ei bod hi'n gadét. Dwi wrth fy modd yn ei gweld hi'n dod allan o'i chragen ac allan o'i hystafell."**

*Rhiant Cadét â Syndrom Tourette*

Fel rhan o'r astudiaeth hon, cafodd rhieni plant yng Nghymru ag anableddau corfforol neu feddyliol eu cyfweld am eu profiadau wrth i'w plant ymuno â Lluoedd y Cadetiaid. Thema gyffredin oedd bod eu plant wedi cael trafferthion yn yr ysgol brif ffrwd a'u bod wedi ei chael hi'n anodd ymwneud â'u cyfoedion. Fodd bynnag, roedd Lluoedd y Cadetiaid wedi darparu amgylchedd gwahanol iawn, mwy strwythuredig a chynhwysol a oedd wedi datblygu hyder eu plant ac, mewn llawer o achosion, o ganlyniad roedden nhw wedi dod yn fwy cyfforddus yn yr ysgol. Mae astudiaeth achos galonogol ar wefan ACF yn rhoi enghraifft bwerus o sut mae Lluoedd y Cadetiaid yn cefnogi pobl ifanc ag ADY:

*"Haydn (15) joined Porthmadog Cadets in February 2022 and it has completely changed his whole life and attitude. Haydn has just been diagnosed autistic not that it's obvious to those who don't know him. But it's there and can be an issue. He very rarely smiles or gets excited and it's very difficult to keep his interest in something other than X Box and the TV!!*



*From the very first phone call with the Detachment Commander Emma Page, I knew it was going to be perfect for him. Both the staff have been amazing with Haydn, they're nurturing and developing his skills alongside his autism and helping use it to his greatest advantage. IT'S NEVER BEEN AN ISSUE.*

*Haydn now is a completely different boy, happy, smiley, has friends, and has an interest. Something to talk about and above all he has a future. Not only is he literally living and loving the Cadets he's excited for his life with the Cadets. We can say Haydn is a different child. He has a passion and interest and a love. His uniform is everything to him always polishing, primping, and pressing to make sure he always looks his best. Emma and Brad could not have been more helpful or more accepting."*[46]

Cafodd CFAVs eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth hefyd. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at y ffaith eu bod wedi dod ar draws llawer o gadetiaid ag anableddau corfforol neu ddysgu. Yn ddiddorol, pwysleisiodd pob un ohonynt nad oedd cael ei ddosbarthu fel rhywun ag ADY yn rhwystr i berson ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cadetiaid gan ei bod bron bob amser yn bosibl diwallu anghenion unigolyn, neu addasu pwnc. Dywedodd un CFAV gyda'r ACF bod ganddi ddau o blant â syndrom Tourette, pedwar ag awtistiaeth, tri ag ADHT ac un â diabetes Math 1 yn ei mintai o 25 cadét! Meddai:

*"Mae'r ACF yn anhygoel, mae pobl anabl yn teimlo eu bod nhw wir yn gallu cymryd rhan, yn aml am y tro cyntaf. Mae'n brofiad cadarnhaol iawn i'w rhieni, ac mae'n sicrhau bod plant 'normal' yn cwrdd â phobl ag anableddau ac yn eu deall. Maen nhw'n eu helpu nhw gyda'u cit, yn clymu careiau eu hesgidiau iddyn nhw ac ati. Y pwynt am yr ACF yw bod pobl anabl yn gallu gwneud y gweithgareddau i gyd bron ac ennill y cymwysterau. Mae'n rhoi grym anhygoel iddyn nhw."*

Mae Lluoedd y Cadetiaid yn darparu amgylchedd cefnogol ond disgybledig sy'n ymddangos fel pe bai'n apelio'n arbennig at blant a ystyrir yn blant ag ADY. Mae trefn a strwythur sy'n aml ar goll o'u bywyd cartref a'u bywyd ysgol y mae ei bwysigrwydd wedi'i sefydlu gan ymchwil flaenorol e.e. Hodgson et al. (2017). Gall Lluoedd y Cadetiaid gefnogi plant ag ADY, neu blant anabl, mewn ffyrdd nad yw ysgolion prif ffrwd yn gallu eu gwneud[47] ac mae'r cymorth hwn yn helpu'r plentyn mewn addysg prif ffrwd.

O ystyried y dystiolaeth o effeithiau cadarnhaol bod yn gadét ar addysg pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, gellir dadlau dros dargedu Minteioedd CCF mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd,[48] ac ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu (gan RFCA dros Gymru a Llywodraeth Leol a Chenedlaethol Cymru) i gefnogi minteioedd Lluoedd y Cadetiaid mewn ardaloedd penodol.

(46) Gweler https://armycadets.com/county-news/this-makes-it-all-worthwhile/ Mae'n braf nodi bod Haydn yn dal i fod yn aelod o Lu Cadetiaid y Fyddin ym mis Ebrill 2024. Cafodd ddyrchafiad i Is-gorporal ac mae ar fin gorffen ei wobr Aur Dug Caeredin. Mae'n bwriadu dod yn wirfoddolwr sy'n oedolyn gyda'r ACF.
(47) Oherwydd problemau adnoddau mewn ysgolion i raddau helaeth.
(48) Does dim cynlluniau i gynyddu nifer yr ysgolion sydd â minteioedd CCF ar hyn o bryd. Mae yna hefyd restr aros o tua 80 o ysgolion yn y DU sydd â diddordeb mewn cael CCF. Fodd bynnag, mae effeithiau cadarnhaol mintai CCF yn arwyddocaol ac mae'r pwynt ynglŷn â thargedu minteioedd CCF newydd mewn rhai ardaloedd yn ddilys.


GP RIFLE

# Effaith Lluoedd y Cadetiaid ar Gyflogadwyedd yng Nghymru

> **"Mae'r sgiliau mae Lluoedd y Cadetiaid yn eu cynnig i bobl ifanc heb eu hail, ac maen nhw'n sgiliau na all unrhyw ysgol eu cynnig."**

*Richard Selby, Rheolwr Gyfarwyddwr, Prosteel Engineering, Pont-y-pŵl*[49]

Mae bwlch sgiliau enfawr yn y DU[50] ac mae busnesau'n dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio gweithwyr sydd â'r sgiliau perthnasol. Ym mis Awst 2022, canfu'r Ffederasiwn Busnesau Bach fod 80% o gwmnïau bach wedi ei chael hi'n anodd recriwtio ymgeiswyr â sgiliau addas yn ystod y 12 mis blaenorol.[51] Un peth sy'n peri pryder yw bod gan 50% o holl fusnesau'r DU fwlch sgiliau seiberddiogelwch sylfaenol, tra bod gan 33% fwlch sgiliau seiberddiogelwch uwchp.[52]

Ers dros ddegawd, mae Barclays wedi bod yn rhedeg ei fenter Sgiliau Bywyd.[53] Fel rhan o'r cynllun hwn, mae wedi arolygu cyflogwyr i ddeall pa sgiliau sydd eu hangen ymhlith pobl sy'n ymuno â'r farchnad swyddi. Nododd yr arolwg diweddaraf saith sgil allweddol ar gyfer y farchnad swyddi sy'n datblygu: natur ragweithiol, y gallu i addasu, arweinyddiaeth, creadigrwydd, gwydnwch, cyfathrebu a datrys problemau.[54] Y sgil a ddymunir fwyaf gan gyflogwyr yn y DU oedd y gallu i ddatrys problemau, ac yna creadigrwydd, arweinyddiaeth a'r gallu i addasu. Mae pwysigrwydd y gallu i addasu wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyflogwyr yn dweud bod gormod o ymgeiswyr (o bob oedran) heb y sgiliau craidd a throsglwyddadwy hyn. Adroddodd yr arolwg fod dros hanner yr ymgeiswyr am swyddi wedi methu ag ateb cwestiynau cymhwysedd yn gywir ar gyfer pob un o'r saith sgil allweddol. At hynny, dywedodd cyflogwyr nad oedd 30% o ymgeiswyr yn gallu dangos arweinyddiaeth.

Cadarnhaodd cyfweliadau â chyflogwyr yng Nghymru ddarlun diflas arolwg Barclays. Dywedodd uwch weithredwr mewn cwmni gweithgynhyrchu, ***"mae cymdeithas wedi newid ac mae gormod o bobl yn treulio gormod o amser ar gemau ar-lein ac mae nhw'n methu canolbwyntio."***

Gyda'r cyd-destun hwn mewn golwg, fe wnaeth y tîm ymchwil gyfweld ag 11 o ymatebwyr yng Nghymru i nodi a oedd

(49) Enw a lleoliad wedi'u dyfynnu gyda chaniatâd
(50) https://www.edge.co.uk/research/projects/skills-shortages-uk-economy/Skills-Shortages-Bulletin-Summary/
(51) https://www.fsb.org.uk/resource-report/scaling-up-skills.html
(52) https://www.gov.uk/government/publications/cyber-security-skills-in-the-uk-labour-market-2023
(53) Gweler https://barclayslifeskills.com/
(54) Gweler https://www.barclays.co.uk/content/dam/documents/business/business-insight/Barclays_Lifeskills_report_v10.pdf

y casgliad o sgiliau a phriodoleddau a ddatblygwyd gan y CCF yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.

Yn ddiddorol, mae adolygiad o'r we a llenyddiaeth yn datgelu bod cyflogwyr yn y DU yn chwilio am amrywiaeth o briodoleddau mewn gweithiwr neu brentis newydd, ifanc ac, yn bwysig, mae'r priodoleddau hyn yn cynnwys eu bod wedi ymrwymo i weithgarwch anacademaidd. Mae ymrwymiad hirdymor i weithgarwch allgyrsiol gan bobl ifanc yn eu harddegau yn cydberthyn yn gadarnhaol â chanlyniadau cyflogadwyedd drwy adeiladu cyfalaf cymdeithasol a dynol a chaniatáu i gyflogwyr wahaniaethu rhwng ymgeiswyr (Clegg et al., 2009; Ng a Feldman, 2014). Mae'r lefel hon o ymrwymiad hirdymor wedi'i disgrifio fel dyfalbarhad, ***"perseverance and passion for long-term goals"*** (Duckworth et al., 2007). Mae llawer o gyflogwyr bellach yn cyflwyno dyfalbarhad i brosesau asesu er mwyn denu ymgeiswyr sy'n gallu ymdopi â mympwyon y gweithle (Butz et al., 2019). Awgrymir bod bod yn gadét am ddwy flynedd, neu fwy yn ddelfrydol, yn dangos dyfalbarhad ac angerdd tuag at nodau hirdymor y mae cyflogwyr am eu gweld.

**"Rwy'n cyfweld ymgeiswyr ar gyfer fy nghwmni. Mae cymwysterau cadetiaid fel cymorth cyntaf, Dug Caeredin ac ati yn dangos lefel o ymrwymiad sy'n llawer gwell na'r hyn sydd gan y rhai nad ydynt yn gadetiaid."**

*Rheolwr Hyfforddiant, Cwmni Cartrefi Gofal*



Mae staff ysgol a gweithwyr proffesiynol cyngor gyrfaoedd yn credu bod bod yn rhan o'r CCF yn dda i CV disgybl a'i fod yn bwysig i'w datganiad personol ar y ffurflen UCAS gan ei fod yn eu helpu i wahaniaethu rhyngddyn nhw a'u cyfoedion nad ydynt yn gadetiaid. Mae'r geirdaon a ddarperir gan benaethiaid yn sôn yn ddieithriad os oedd disgybl yn aelod o fintai CCF ac yn disgrifio'r setiau sgiliau a ddatblygwyd. Tynnodd penaethiaid ac arweinwyr ysgol eraill sylw at y ffaith bod aelodaeth o'r CCF yn wahaniaethydd gwych a oedd yn rhoi mantais i gadetiaid o gymharu â grwpiau cyfoedion nad oeddent yn gadetiaid mewn ceisiadau am brentisiaethau a chyflogaeth. Mae data'r arolwg a gasglwyd gan Benaethiaid a Chomanderiaid Mintai ar gyfer yr astudiaeth i effeithiau'r CCF yn awgrymu hefyd bod minteioedd CCF yn cael effaith gadarnhaol ar ddyheadau gyrfa disgyblion, gyda 75% o benaethiaid a 92% o Gomanderiaid Mintai yn ymateb i'r cwestiwn hwn gydag ymateb 'Cytuno/Cytuno'n Llwyr'. Mae barn staff ysgolion a staff gyrfaoedd yn rhesymegol, o ystyried y gorgyffwrdd rhwng y sgiliau allweddol mae cyflogwyr eu heisiau a'r priodoleddau allweddol a ddatblygir gan Luoedd y Cadetiaid; cyfathrebu, arweinyddiaeth, gwydnwch, gweithio mewn tîm, sgiliau cymdeithasol, hyder a derbyn amrywiaeth.

Roedd CFAVs oedd yn ymwneud â recriwtio a rheoli pobl yn eu swyddi bob dydd yn gadarnhaol iawn am gyflogadwyedd cadetiaid hefyd. Dywedodd uwch-swyddog heddlu a oedd wedi ymddeol yn ddiweddar, *"mae bod yn gadét yn baratoad gwych ar gyfer bywyd fel oedolyn. Mae'r strwythur rhengoedd yn golygu bod cadetiaid yn meithrin cyfrifoldeb, yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ac yn dod i arfer ag arwain. Maen nhw'n cyfarfod ag uwch swyddogion a phobl bwysig eraill hefyd e.e. aelodau o'r Teulu Brenhinol. Maen nhw'n cael blas ar y byd go iawn a beth yw'r cyfleoedd. Maen nhw'n deall y rheolau a beth mae'n ei olygu i fod yn oedolyn. Maen nhw'n dod yn gyflogadwy iawn."* Dywedodd rheolwr hyfforddiant sefydliad sydd â chontract Canolfan Byd Gwaith mewn ffordd symlach, *"does dim cymhariaeth rhwng cadetiaid a phobl nad ydyn nhw'n gadetiaid. Bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn cymryd rhywun sy'n troi i fyny, yn siarad, yn cyfathrebu, yn rhyngweithio ag eraill, yn gallu gwisgo ac yn gallu derbyn cyfarwyddiadau. Bydd cyn-cadetiaid yn cael swydd."*



Gall aelodau o Luoedd y Cadetiaid, yn gadetiaid ac yn CFAVs, ennill cymwysterau galwedigaethol drwy Goleg Galwedigaethol y Cadetiaid (CVC). Mae cymwysterau CVC yn agored i bawb, yn gynhwysol ac mae mynediad cyfartal wedi'i sicrhau.[55] Mae'r cymwysterau galwedigaethol a gynigir gan CVC yn nodi ac yn achredu sgiliau bywyd hanfodol nad ydynt yn cael eu gwobrwyo na'u cydnabod yn rhy aml - priodoleddau fel gwaith tîm, cyfathrebu, arweinyddiaeth a gwydnwch.

> **"Mae Cymwysterau Galwedigaethol yn amhrisiadwy, mae gan ormod o bobl raddau ond dim sgiliau defnyddiol. Mae cyflogwyr eisiau sgiliau personol, ymarferol."**

*Gweithiwr Proffesiynol Cyngor Gyrfaoedd*

Er mai dim ond lleiafrif o gadetiaid a CFAVs yng Nghymru sy'n manteisio ar y cyfle i ennill cymwysterau galwedigaethol, mae'n nodedig pa mor agos mae'r rhinweddau a'r nodweddion a bennir gan gyflogwyr yn cyfateb i'r rhai a ddatblygir gan gymwysterau BTEC ac ILM Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid ar lefelau 1, 2 a 3. Cadarnheir hyn gan y llenyddiaeth (Branine, 2008). Yn 2019, cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) ei adroddiad yn adolygu gwerth cymwysterau

(55) Mae mynediad cyfartal yn arbennig o bwysig i bobl sydd â phroblemau ADY.



galwedigaethol (Pember et al. 2019).[56] Roedd canfyddiadau allweddol adroddiad y NFER yn cynnwys y canlynol:

- Mae dysgwyr a chyflogwyr yn teimlo bod cwblhau cymwysterau galwedigaethol a thechnegol (VTQs) yn llwyddiannus yn gam cadarnhaol o ran caffael sgiliau a datblygu ymddygiadau addas i'r gweithlu.
- Mae cydberthynas gadarnhaol rhwng cwblhau VTQ yn llwyddiannus a'r tebygolrwydd o gael cyflogaeth. Yn gyffredinol, mae'r tebygolrwydd o gael cyflogaeth yn cynyddu gyda'r lefel uchaf o gymhwyster galwedigaethol a gyflawnir
- Defnyddir VTQs yn helaeth fel meincnod ar gyfer recriwtio ar lefelau rheoli/goruchwylio a medrus/proffesiynol.

Mae'r trydydd canfyddiad yn arbennig o ddiddorol i'r dysgwyr sy'n oedolion y mae Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid yn gweithio gyda nhw.

Roedd prosiect ymchwil 2023 i effaith a gwerth cymwysterau galwedigaethol, a ddisgrifir uchod, wedi cyfweld â 10 cyn-gadét sydd i gyd yn gyflogedig neu yn y brifysgol bellach, a 10 CFAV y mae pob un ohonynt wedi ennill cymwysterau gyda'r CVC. Mae Tabl 6 yn crynhoi'r themâu a ddaeth i'r amlwg o ddadansoddiad o'r data a gasglwyd gan yr 20 ymatebwr hyn.

(56) https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/JCQV-Report.pdf

| Cyfweleion | Themâu sy'n dod i'r amlwg |
|---|---|
| Cyn Gadetiaid | Mae cymwysterau galwedigaethol yn dangos bod cadetiaid nid yn unig yn 'academaidd', ond yn ymarferol hefyd;<br>Mae cymwysterau galwedigaethol yn gwneud cadetiaid yn 'arbennig', gan roi mantais iddynt dros eu cyfoedion sydd â chymwysterau academaidd tebyg;<br>Mae cymwysterau galwedigaethol yn ychwanegiad pwysig iawn at CV, ar gyfer addysg bellach ac uwch, prentisiaethau a chyflogaeth;<br>Mae'r sgiliau a ddysgir drwy wneud cymwysterau galwedigaethol yn ddefnyddiol iawn yn y gweithle |
| CFAVs | Mae cymwysterau galwedigaethol yn rhoi mantais bwysig i fyfyrwyr academaidd iawn dros eu cyfoedion sydd â chymwysterau academaidd tebyg;<br>Mae cymwysterau galwedigaethol yn bwysig iawn i gadetiaid sydd dan anfantais neu'n llai academaidd;<br>Mae ennill cymhwyster galwedigaethol yn dangos gwerth unigolyn i gyflogwyr;<br>Mae cymwysterau galwedigaethol yn hygyrch ac yn bwysig iawn i gadetiaid ac oedolion â phroblemau ADY e.e. dyslecsia, ADHT;<br>Mae cymwysterau galwedigaethol yn hygyrch ac yn bwysig iawn i gadetiaid sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, sydd yn y system ofal ac nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf;<br>Mae ennill cymhwyster BTEC 1 neu 2 yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cadetiaid dan anfantais a/neu lai academaidd yn ennill cymwysterau TGAU;<br>Mae gwirfoddolwyr sy'n oedolion sy'n gwneud Lefel 3 City and Guilds mewn Addysg a Hyfforddiant yn dod yn hyfforddwyr gwell, yn eu swyddi ac fel cadetiaid;[57]<br>Mae pawb yn mynd i'r ysgol, nid oes gan lawer o bobl ifanc gymwysterau galwedigaethol. |

**Tabl 6: Themâu cyfweliad ar werth cymwysterau galwedigaethol Coleg Galwedigaethol y Cadetiaid**

Mae Tabl 6 yn tynnu sylw at bwysigrwydd manteisio ar y cyfle i ennill cymwysterau galwedigaethol yn Lluoedd y Cadetiaid. Mae'r cymwysterau hyn, sy'n ychwanegol at y rhai a enillir mewn addysg brif ffrwd, yn rhoi mantais sylweddol i'r cadetiaid a'r CFAVs hynny sydd â nhw. Cefnogir y casgliad hwn gan ddata cyfweliadau a gasglwyd gan ddau reolwr o'r Adran Gwaith a Phensiynau (un yn Ddirprwy Gyfarwyddwr) a dau weithiwr proffesiynol cyngor gyrfaoedd. Dywedodd pob un o'r pedwar cyfwelai fod cymwysterau galwedigaethol yn ddangosyddion pwysig o gyflogadwyedd a chamu ymlaen mewn gyrfa. Yn ddiddorol, nododd Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Gwaith a Phensiynau fod cymwysterau

(57) Gan gynnwys cadetiaid sy'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, wedi'u dosbarthu fel cadetiaid ag ADY, yn y system ofal, nad Saesneg yw iaith gyntaf, wedi'u gwahardd o'r ysgol.




galwedigaethol yn *"edrych ar ôl yr agenda gudd, gan helpu'r rhai nad ydynt nhw'n 'gwneud yn dda' yn yr ysgol,"* gan atgyfnerthu un o'r themâu allweddol a nodwyd gan wirfoddolwyr sy'n oedolion mewn cyfweliad.

Mae'n bwysig nodi bod y CVC yn derbyn arian gan yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (EFSA) i'w alluogi i ddarparu cymwysterau galwedigaethol i gadetiaid yn Lloegr heb iddynt orfod talu unrhyw gostau. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru'n gwneud darpariaeth o'r fath, a Lluoedd y Cadetiaid (gan ddefnyddio cyllideb y Weinyddiaeth Amddiffyn) sy'n darparu arian i alluogi cadetiaid yng Nghymru i ennill cymwysterau galwedigaethol. O ystyried y dystiolaeth o effeithiau cadarnhaol ennill cymwysterau galwedigaethol ar waith ysgol, camu ymlaen i addysg bellach neu uwch a chyflogaeth, gellid dadlau y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei safbwynt presennol.

**Mae bod yn aelod o Luoedd y Cadetiaid yn rhoi'r sgiliau a'r agweddau hanfodol sydd eu hangen ar berson ifanc i gael swydd a gyrfa lwyddiannus**

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yng Nghymru am effaith Lluoedd y Cadetiaid ar gyflogadwyedd yn gyson. Mae rheolwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat, athrawon, gweithwyr proffesiynol cyngor gyrfaoedd a staff y Weinyddiaeth Amddiffyn i gyd yn credu bod bod yn aelod o Luoedd y Cadetiaid yn rhoi'r sgiliau a'r agweddau hanfodol sydd eu hangen ar berson ifanc i gael swydd a gyrfa lwyddiannus. Cefnogir eu cred gan y llenyddiaeth ar bwysigrwydd ymrwymiad hirdymor i weithgareddau allgyrsiol. Ar y cyfan, deuir i'r casgliad bod tystiolaeth gadarn iawn i ddangos bod degau o filoedd o bobl wedi gwella eu cyfleoedd bywyd yn sylweddol o ganlyniad i ennill eu cymwysterau galwedigaethol tra'u bod nhw'n aelodau o grwpiau ieuenctid mewn lifrai, efallai yn enwedig os ydynt yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig neu'n bobl ag ADY mewn unrhyw ffordd.

> **"Mae uwch-gadét 18 oed wedi profi ei hun, mae wedi gwneud cyfweliadau, profion a chymwysterau yn ystod ei amser yn y Cadetiaid, mae wedi cael dyrchafiadau ac mae wedi bod â chyfrifoldeb go iawn dros eraill. Mae ganddo sgiliau hanfodol mae cyflogwyr eu hangen."**

*Cynorthwyydd Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogaeth, Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru*



# Sut mae Lluoedd y Cadetiaid yn Cael Effaith?

> **"Mewnbwn allweddol y Cadetiaid Môr yw disgyblaeth a'r lifrai. Mae gan gadetiaid ymdeimlad o falchder, neu gyfeillgarwch, maen nhw'n gwybod ble maen nhw, ac maen nhw'n gallu gweld sut i gamu ymlaen, maen nhw'n gallu cael dyrchafiadau. Mae cadetiaid yn gwneud pethau nad yw'r rhan fwyaf o blant yn eu gwneud."**

*CFAV Cadetiaid Môr/Rhingyll yr Heddlu*

Mae Lluoedd y Cadetiaid yn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol iawn i'r rhai sy'n aelodau, yn blant ac yn oedolion. Felly, mae'n berthnasol archwilio sut y gallant wneud cymaint o wahaniaeth i ddatblygiad personol, symudedd cymdeithasol, addysg a chyflogaeth. Mae gan y rhan fwyaf o unedau cadetiaid yn y gymuned un neu ddau gyfarfod gyda'r nos, a elwir yn 'nosweithiau gorymdeithio', bob wythnos, tra bod milwyr minteioedd CCF yn gorymdeithio ar ôl oriau ysgol yn y prynhawn fel arfer. Yn ystod y gorymdeithiau hyn, bydd cadetiaid yn gweithio drwy faes llafur sy'n benodol i'r ACF, Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol, Cadetiaid Môr neu CCF.[58] Gall cadetiaid newydd ymuno unrhyw adeg o'r flwyddyn bron, felly mae angen sicrhau bod nifer o weithgareddau ar waith bob amser. Mae unedau cadetiaid yn cynnal gwersylloedd penwythnos hefyd, mewn lleoliadau cyfagos fel arfer, ac maen nhw'n cynnig gwersyll haf blynyddol gan amlaf. Nid oes rhaid i gadetiaid fynychu gwersylloedd penwythnos neu haf, er bod y rhai sy'n gwneud hynny yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Yn ogystal â gorymdeithiau safonol minteioedd a'r gwersylloedd penwythnos a haf, mae Lluoedd y Cadetiaid yn darparu amrywiaeth eang iawn o weithgareddau 'gwerth ychwanegol', gan gynnwys:

- Gwobr Dug Caeredin, i Lefel Aur
- Cymwysterau Galwedigaethol, drwy Gwmni Galwedigaethol y Cadetiaid
- Gwobr Dug Westminster, drwy Gwmni Galwedigaethol y Cadetiaid
- Hyfforddiant anturus, gan gynnwys y cyfle i ennill cymwysterau
- Cyrsiau STEM a Seiber, gan gynnwys Cyber First
- Cyrsiau Arweinyddiaeth Uwch, ar gyfer uwch gadetiaid
- Cyfleoedd Cyfnewid Tramor
- Ymweliadau a chyrsiau'r Llynges Frenhinol, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol, a gynhelir yn aml gan y Lluoedd Rheolaidd, gan gynnwys cyfleoedd i fynd ar y môr a hedfan ac ati.[59]
- Cyrsiau a chymwysterau Cymorth Cyntaf

(58) Mae maes llafur CCF ar gyfer adrannau'r Fyddin, yr Awyrlu Brenhinol a'r Llynges Frenhinol ychydig yn wahanol i'r maes llafur sy'n cael ei ddilyn gan unedau yn y gymuned.

(59) Mae aelodau o adrannau CCF yr Awyrlu Brenhinol yn gymwys i wneud cais am Ysgoloriaeth Hedfan gan Gymdeithas yr Awyrlu Brenhinol. Nod Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol yw rhoi cyfle i Gadetiaid Awyr hedfan o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r Gwarchodlu Cymreig yn ymweld â'i finteioedd CCF a'i finteioedd ACF cysylltiedig a gall cadetiaid ymweld â'r Gatrawd pan fydd yn Llundain.

Enghraifft arbennig o dda o hyfforddiant anturus a gynigir i gadetiaid yng Nghymru oedd taith 2023 i Dde Affrica. Roedd 72 o gadetiaid ACF o bob rhan o Gymru ar y daith, a ddewiswyd gan eu sefydliadau ACF Sirol. Ariannwyd yr antur yn rhannol gan yr ACF fel bod y gost i gadetiaid (neu eu rhieni) yn llai na phris yr awyren. Ar ben hynny, roedd cadetiaid o gartrefi llai cefnog yn talu llawer llai neu, mewn rhai achosion, dim byd.[60] Bu'r cadetiaid yn cymryd rhan mewn hyfforddiant antur, yn gweithio ar brosiectau cadwraeth, yn mynd ar batrolau gyda cheidwaid parciau bywyd gwyllt ac yn ymweld â Rourke's Drift.[61] O'r 72 o gadetiaid ar y daith, nid oedd traean ohonynt wedi hedfan erioed o'r blaen ac nid oedd llawer ohonynt wedi bod dramor. Fel yr awgryma Prince (2021), cadarnhaodd y CFAVs a oedd yn rhan o'r profiad unigryw hwn ei fod wedi datblygu hyder, hunanddibyniaeth ac annibyniaeth a sgiliau cyfathrebu'r cadetiaid, yn ogystal â gwella eu dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol.

**Mae'n cael pobl ifanc i ffwrdd o'u ffonau a'u sgriniau TG**

Drwy ddarparu'r amrywiaeth gyfoethog hon o weithgareddau allgyrsiol, mae Lluoedd y Cadetiaid yn rhan o 'ecosystem ddysgu' lle mae ysgol yn bwysig, ond dim ond yn un o'r dylanwadau ar y cadét (Krishnamurthi et al. 2014). Mae cael cefnogaeth gan ecosystem o'r fath yn gysylltiedig â gwell datblygiad cymdeithasol-emosiynol, gwell ymddygiad, gwell hunanhyder academaidd, gwell presenoldeb yn yr ysgol a chynnydd mewn cyflawniad addysgol (Craft 2012, Abruzzo et al. 2016, Collings 2020). Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes, mae cymwysterau galwedigaethol, fel y rhai a ddarperir gan Goleg Galwedigaethol y Cadetiaid, yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr, ac yn helpu i gael mynediad at addysg bellach ac uwch. O gymharu â grwpiau ieuenctid eraill, mae gan Luoedd y Cadetiaid faes llafur mwy ffurfiol, maent yn rhoi mwy o sicrwydd am weithgareddau ac (oherwydd eu system ariannu a chefnogaeth gan y Lluoedd Rheolaidd) yn darparu mwy o heriau a chyfleoedd. Mae'r drefn ariannu'n golygu y gall Lluoedd y Cadetiaid alluogi'r plant hynny o gartrefi llai cefnog i gymryd rhan ym mhob gweithgarwch ac, fel y dywedodd un CFAV Cadét Awyr yr Awyrlu Brenhinol, maen nhw'n ***"sylweddoli bod ffordd o fyw y tu allan i'w profiad y gallan nhw fod yn rhan ohoni, mae'n codi dyheadau."*** Mae'r lifrai'n gwneud pob cadét yr un fath, mae'n cael gwared ar rwystrau dosbarth, incwm, hil ac ati. Drwy greu 'teulu' o gadetiaid ac ymdeimlad cryf o berthyn, mae gwydnwch yn cynyddu. Thema gyffredin iawn a ddaeth i'r amlwg mewn cyfweliadau â CFAVs oedd bod llawer o bobl ifanc angen ac yn croesawu'r strwythur a'r ddisgyblaeth a gynigir gan Luoedd y Cadetiaid. Efallai y bydd rhieni ac ysgolion yn gwneud gwaith da, ond mae Lluoedd y Cadetiaid yn rhoi ffiniau a chyfeiriad gwahanol sydd i'w croesawu. Mae'n darparu pobl newydd i gysylltu â nhw, ac yn cael pobl ifanc i ffwrdd o'u ffonau a'u sgriniau TG. Nodwyd bod yr holl CFAVs a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn dweud bod y ddisgyblaeth strwythuredig a'r her a gynigir gan Luoedd y Cadetiaid yn golygu bod cadetiaid yng Nghymru yn ymddwyn yn wahanol i'r mwyafrif helaeth o'u cyfoedion nad ydynt yn gadetiaid.

(60) Mae'n gyffredin i unedau cadetiaid godi arian i alluogi pobl ifanc o gartrefi llai cefnog i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

(61) Yn amlwg yn ymweliad arbennig o berthnasol i gadetiaid o Gymru.

# Yr Angen am Wirfoddolwyr sy'n Oedolion yn Lluoedd y Cadetiaid (CFAVs)

**Mae'r canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc sy'n gadetiaid yng Nghymru yn dibynnu ar tua 1,330 o oedolion sy'n rhoi o'u hamser i redeg Lluoedd y Cadetiaid. Heb y CFAVs hyn, ni all Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru weithredu. Felly, mae'n briodol gofyn beth mae'r oedolion hanfodol hyn yn ei gael o'u profiad yn Lluoedd y Cadetiaid.**

Yn yr astudiaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021, adroddwyd am ganlyniadau dau arolwg o CFAVs ledled y DU, gan gynnwys Cymru.[62] Mae Tabl 7 yn rhestru rhai o nodweddion allweddol CFAVs y DU. Prif ganfyddiadau'r arolygon hyn oedd bod mwyafrif llethol y CFAVs a arolygwyd (96%) yn teimlo bod gwirfoddoli wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Dywedodd mwyafrif y CFAVs a arolygwyd fod gwirfoddoli wedi gwella eu lles meddyliol a'u sgiliau arwain hefyd. Roedd safbwyntiau CFAVs ar i ba raddau roedd gwirfoddoli wedi gwella eu lles corfforol yn fwy cymysg. Dywedodd y mwyafrif o CFAVs y byddent yn argymell bod yn CFAV. Mae'r CFAVs hynny a oedd yn gweithio mewn ysgolion fel athrawon yn dweud bod eu gwaith yn y CCF yn helpu i feithrin cysylltiadau diogel â myfyrwyr, a oedd o fudd iddyn nhw a'u disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

Roedd y canfyddiadau ar alluoedd arwain yn gadarnhaol, gyda'r mwyafrif o CFAVs yn ymateb bod eu galluoedd wedi gwella oherwydd eu gwirfoddoli. Mae arwain pobl a phrosiectau'n sgiliau gwerthfawr y gellir eu gwobrwyo yn y gweithle ac a all eich helpu i gamu ymlaen yn eich gyrfa; i rai CFAVs, roedd eu gwirfoddoli wedi gwella eu hunanddatblygiad yn y maes hwn.




(62) Yn 2018, casglwyd data gan 104 o CFAVs ac, yn 2019, casglwyd data gan 353 o CFAVs. Rhoddodd y meintiau sampl hyn ganlyniadau ar y lefel hyder 90% $p < 0.1$

| Nodwedd CFAV | Canran |
|---|---|
| Yn gyflogedig | 91% |
| Cyflogwyr yn gwybod am y rôl yn Lluoedd y Cadetiaid | 81% |
| Cyflogwyr yn cefnogi rôl CFAV yn weithredol | 67% |
| Athrawon/Gweithwyr Cymdeithasol/ Swyddogion yr Heddlu yn credu bod bod yn gadét yn arbennig o fuddiol i bobl ifanc dan anfantais | 97% |

**Tabl 7: Nodweddion allweddol CFAVs yn y DU**

Dangosodd yr arolygon hefyd mai'r amser cyfartalog mae CFAV yn ei dreulio ar weithgareddau Lluoedd y Cadetiaid yw dros 10 awr yr wythnos, dros o leiaf 40 wythnos y flwyddyn. Dylid nodi nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys amser a dreulir ar wersylloedd penwythnos neu haf, neu hyfforddiant antur ac ati. Mae'n ffigur ceidwadol iawn. O ystyried bod tua 1,330 o CFAVs yng Nghymru, yr amser a neilltuir yn wirfoddol i Luoedd y Cadetiaid yw o leiaf 532,000 awr y flwyddyn, sy'n gyfystyr ag o leiaf 71,000 diwrnod gwaith y flwyddyn. Mae hwn yn ffigur trawiadol iawn sy'n dangos ymrwymiad oedolion yng Nghymru i Luoedd y Cadetiaid.

**Dangosodd yr arolygon hefyd mai'r amser cyfartalog mae CFAV yn ei dreulio ar weithgareddau Lluoedd y Cadetiaid yw dros 10 awr yr wythnos, dros o leiaf 40 wythnos y flwyddyn**

Ar gyfer yr astudiaeth newydd hon, cafodd wyth CFAV yng Nghymru eu cyfweld. Roedd pob un ohonynt yn honni bod eu rôl wirfoddol wedi datblygu eu hyder, eu hunanddibyniaeth a'u dyheadau gyrfa. Roeddent wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ennill cymwysterau mewn pynciau fel arweinyddiaeth a rheolaeth a chymorth cyntaf. Roedd natur 'deuluol' Lluoedd y Cadetiaid yn bwysig iddyn nhw hefyd, yn enwedig y cyfle i weithio gyda phobl o lawer o wahanol gefndiroedd ac â llawer o sgiliau gwahanol. Dywedodd ymatebwyr fod bod yn CFAV wedi eu helpu yn eu swydd a'u gyrfa; bod eu sgiliau rheoli pobl wedi gwella, eu bod yn fwy ymwybodol o bobl, bod ganddynt fwy o empathi a'u bod yn gallu gweithio'n galed iawn. Mae CFAVs yng Nghymru yn dod o bob cefndir ac yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus neu breifat. Yr hyn sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin yw awydd i 'roi rhywbeth yn ôl.' Maen nhw'n dweud eu bod nhw'n cael boddhad mawr o helpu i greu dinasyddion da.

Mae angen cyson i adnewyddu'r garfan o CFAVs. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod oedolion yn cael eu cymell gan yr awydd i 'roi rhywbeth yn ôl' drwy alluogi datblygiad pobl ifanc (y Rhoi). Awgrymir bod y budd mae oedolion yn ei gael o fod yn CFAV (y Fantais) yn cael ei gyfleu'n fwy eglur i'r CFAVs presennol a darpar CFAVs newydd.

> **"Mae fy rôl fel Cadét yn berthnasol iawn i fy swydd. Mae'n rhaid i mi hyfforddi pobl, gwybod am gymorth cyntaf, diogelu ac ati. Mae fy rôl fel CFAV a fy swydd yn ategu ei gilydd yn dda."**

*CFAV/Rheolwr Hyfforddiant ar gyfer Cwmni Cartrefi Gofal*

# Lluoedd y Cadetiaid a Pholisi'r Llywodraeth

**Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a strategaethau y mae'r Lluoedd Cadetiaid yn cyfrannu canlyniadau pwysig atynt yn uniongyrchol.**

---

Fel y nodwyd uchod, mae'r ffaith bod Lluoedd y Cadetiaid yn cau'r bwlch hunan-effeithiolrwydd rhwng plant o ardal o amddifadedd a'r rhai sy'n fwy ffodus yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag Amcan 2 yn ***Strategaeth Tlodi Plant Cymru.***

Mae ***Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru***[63] yn datgan awydd i integreiddio addysg ffurfiol, addysg anffurfiol a dysgu anffurfiol. Mae'n ceisio datblygu a gwireddu potensial pobl ifanc ac mae wedi ymrwymo i gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r ymchwil i effaith gymdeithasol Lluoedd y Cadetiaid yn dangos yn glir bod cyfranogiad pobl ifanc mewn unedau cadetiaid yn helpu i'w galluogi i wireddu eu potensial drwy ddatblygu sgiliau allweddol. Ar ben hynny, mae integreiddio dysgu ffurfiol (yn yr ysgol) a dysgu anffurfiol (awyr agored yn y cadetiaid) yn gryf drwy ddatblygu ecosystem ddysgu, gyda llawer o gadetiaid yn ennill brwdfrydedd newydd dros ddysgu ffurfiol o ganlyniad i'w profiadau yn y cadetiaid, yn ogystal ag ennill cymwysterau ychwanegol pwysig.

Nid yw cymryd rhan yn Lluoedd y Cadetiaid yn warant o gynnydd neu welliant addysgol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y tîm ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon yn tynnu sylw at werth bod yn gadét ar ganlyniadau addysgol llawer o bobl ifanc, yn enwedig y rhai mwy difreintiedig. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod gweithgareddau a chanlyniadau Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn cefnogi'n gryf bedwar diben y ***Cwricwlwm i Gymru 2022***.[64] Mae'r llu o weithgareddau awyr agored mae aelodau Lluoedd y Cadetiaid yn cymryd rhan ynddynt yn uniongyrchol berthnasol i'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar ddyluniad y cwricwlwm, sy'n nodi y dylid rhoi sylw penodol i fod yn yr awyr agored, arsylwi a dysgu dilys a phwrpasol.[65]




---

(63) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cymru.pdf
(64) https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru
(65) https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/galluogi-dysgu/



Yn ogystal, mae unedau Cadetiaid yn cefnogi eu cyfranogwyr i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r Byd drwy amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys cyfleoedd i:

- wneud dewisiadau cadarnhaol, a dysgu sut mae'r rhain yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles eu hunain a phobl eraill
- rhyngweithio ag eraill mewn sefyllfaoedd cymdeithasol gwahanol
- ymgysylltu â dylanwadau cymdeithasol gwahanol a gwerthfawrogi pwysigrwydd parchu eraill
- ystyried y materion cymdeithasol a moesegol sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl eraill

Felly, mae unedau cadetiaid yn cefnogi'r ***strategaeth Iechyd a Lles***[66] yn uniongyrchol sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae canlyniadau Lluoedd y Cadetiaid o ran cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc yn gwneud cyfraniad sylweddol at ***strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau'r*** Llywodraeth,[67] yn enwedig y flaenoriaeth o helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial.

Yn hanfodol, mae gweithrediad Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn cefnogi'n uniongyrchol y ***Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid***.[68] Nod y Fframwaith yw helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial drwy eu helpu i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a'u hatal rhag bod yn ddigartref. Does dim amheuaeth bod effaith Lluoedd y Cadetiaid ar bobl ifanc o gartrefi dan anfantais economaidd yn helpu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Yn ogystal â bod yn uniongyrchol berthnasol i gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru, mae'n werth nodi, er nad oes gan waith ieuenctid yr un ffurfioldeb â Lluoedd y Cadétiaid, fod nodau'r ddau yr un fath. Mae'r ddogfen ***Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion***[69] wedi'i chynhyrchu gan gynrychiolwyr sectorau gwirfoddol a gwaith ieuenctid awdurdodau lleol yng

(66) https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles
(67) https://www.llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-sgiliau-crynodeb-html
(68) https://www.llyw.cymru/fframwaith-ymgysylltiad-chynnydd-ieuenctid-trosolwg
(69) https://www.cwvys.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/YOUTH-WORK-IN-WALES-PRINCIPLES-AND-PURPOSES.pdf

Nghymru. Prif amcan y ddogfen yw nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i waith ieuenctid a rhoi trosolwg o'i natur, ei ddibenion a'i gyflawniad.

Nod gwaith ieuenctid yng Nghymru yw:

- hyrwyddo ac annog cyfleoedd i bob person ifanc er mwyn iddynt gyflawni eu potensial fel unigolion sydd wedi'u grymuso ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau;
- cefnogi pobl ifanc drwy newidiadau sylweddol yn eu bywydau a'u helpu i ddeall eu cyfrifoldebau;
- cefnogi pobl ifanc i allu deall ac arfer eu hawliau;
- annog pobl ifanc i gael a datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd ac i wneud defnydd adeiladol o'u sgiliau, eu hadnoddau a'u hamser;
- hyrwyddo cyfleoedd a mynediad i bob person ifanc, beth bynnag fo'u hil, rhywedd, hunaniaeth rywiol, iaith, crefydd, anabledd, oedran, cefndir neu amgylchiadau personol;
- herio gormes ac anghydraddoldeb;
- cefnogi a galluogi pobl ifanc i gadw eu hunain yn ddiogel.

Mae llawer o orgyffwrdd rhwng allbynnau a chanlyniadau Lluoedd y Cadetiaid a'r nodau hyn.

Gellir dod i'r casgliad bod cadetiaid a CFAVs yng Nghymru yn cael budd personol ac yn darparu canlyniadau cadarnhaol i Lywodraeth Cymru. Mae Lluoedd y Cadetiaid yn cyflawni canlyniadau ac effeithiau sy'n bwysig i'r cyd-destunau penodol a'r blaenoriaethau gwleidyddol yng Nghymru, yn ogystal â chyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau cenedlaethol a ddisgrifiwyd eisoes. Mae Lluoedd y Cadetiaid yn bwysig i'r unigolion sy'n aelodau, a hefyd i Gymru. Mae'n bwysig bod cyfraniad Lluoedd y Cadetiaid at Gymru yn cael ei fynegi'n glir a bod llunwyr polisi, arweinwyr addysgol a chyflogwyr yn deall y cyfraniad hwnnw.

**Mae cadetiaid a CFAVs yng Nghymru yn cael budd personol ac yn darparu canlyniadau cadarnhaol i Lywodraeth Cymru**



# Casgliadau

**Mae Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn darparu canlyniadau symudedd cymdeithasol, addysg a chyflogadwyedd cadarnhaol iawn i bobl ifanc. Mae gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn elwa ar y sgiliau a'r cymwysterau y maent yn eu hennill, ac mae'r rhain yn arwain at well cyfleoedd gyrfa yn aml. Mae oedolion a phobl ifanc yn cael manteision (fel ffrindiau newydd) o natur 'deuluol' Lluoedd y Cadetiaid a gallant gael codi eu dyheadau a'u huchelgeisiau.**



Fodd bynnag, mae nifer y cadetiaid yng Nghymru yn is na'r disgwyl, gyda dim ond 2.4% o blant cymwys yn Lluoedd y Cadetiaid, o gymharu â 4.2% ledled y DU. Mae lle i gynyddu nifer y plant sy'n aelodau o Luoedd y Cadetiaid i fynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth gymharol hon. Mwya'n byd o blant sy'n gadetiaid, mwya'n byd y byddant yn cael y manteision sylweddol a ddarperir.

Mae nifer y cadetiaid yng Nghymru sy'n ennill cymwysterau galwedigaethol wedi'i gyfyngu gan faint o arian y gall Lluoedd y Cadetiaid ei ddarparu. O ystyried y manteision sylweddol a gaiff pobl ifanc â'r cymwysterau hyn, a sefyllfa Lluoedd y Cadetiaid fel rhan o ecosystem ddysgu yng Nghymru, mae achos dros fuddsoddi (pe bai adnoddau'n caniatáu) gan ddeiliaid cyllidebau nad ydynt yn rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y CFAV i Luoedd y Cadetiaid yng Nghymru. Eu hamser a'u hymdrech nhw sy'n arwain at yr allbynnau a'r canlyniadau sy'n cyfrannu mor effeithiol at gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru, a datblygu dinasyddion o'r radd flaenaf yng Nghymru i'r dyfodol.

# Argymhellion

Mae pedwar argymhelliad yn deillio o'r adroddiad hwn.

1. **Dylai Lluoedd y Cadetiaid, llunwyr polisi ac arweinwyr addysgol ddatblygu a gweithredu cynllun cytunedig i gynyddu nifer y bobl ifanc yn Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru;[70]**

2. **Dylid esbonio'n glir ac yn gyson y budd mae gwirfoddolwyr sy'n oedolion yn ei gael o fod yn CFAV, er mwyn helpu i gadw CFAVs presennol a denu rhai newydd;**

3. **Os yw adnoddau'n caniatáu, dylai mwy o gadetiaid ennill cymwysterau galwedigaethol fel rhan o'u gwasanaeth yn Lluoedd y Cadetiaid;**

4. **Dylid egluro'n glir y cyfraniad mae Lluoedd y Cadetiaid yng Nghymru yn ei wneud at gyflawni amcanion polisïau Llywodraeth Cymru i lunwyr polisïau, arweinwyr addysgol a chyflogwyr.**




(70) Bydd cynllun o'r fath yn golygu ystyried lleoliad unedau Lluoedd y Cadetiaid a, phan fydd adnoddau'n caniatáu, buddsoddiad ychwanegol.

# Cyfyngiadau'r Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn, fel pob adroddiad gwyddor gymdeithasol arall, yn seiliedig ar ddata sylfaenol ac eilaidd sydd, yn anochel, yn anghyflawn. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi nad oedd yr amserlenni a'r gyllideb ar gyfer yr ymchwil yn caniatáu casglu data sylfaenol gan grwpiau rheoli, pobl ifanc ac oedolion nad ydynt yn aelodau o Luoedd y Cadetiaid. Er mwyn ceisio goresgyn y cyfyngiadau hyn, cynhaliwyd adolygiad helaeth o lenyddiaeth berthnasol i alluogi'r tîm ymchwil i nodi cysondebau ac anghysondebau rhwng eu canfyddiadau nhw ac ymchwil flaenorol.

Gallwn adrodd bod llawer o gysondebau calonogol. Mae'r tîm ymchwil yn cydnabod risgiau rhagfarn sy'n gysylltiedig â dehongli data ansoddol a meintiol hefyd. Er mwyn lleihau effaith unrhyw ragfarn oddrychol, croeswiriodd y tîm ymchwil y themâu a ddaeth i'r amlwg o ddata Cymru gyda llenyddiaeth bresennol a ffynonellau data eraill. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn destun adolygiad gan gymheiriaid mewnol ym Mhrifysgol Northampton.


CADET

# Cyfeiriadau


1. Abruzzo, K.J., Lenis, C., Romero, Y.V., Maser, K.J. and Morote, E.S., 2016. Does Participation in Extracurricular Activities Impact Student Achievement?. *Journal for Leadership and Instruction, 15*(1), tt.21-26.
2. Branine, M. 2008 Graduate recruitment and selection in the UK: A study of the recent changes in methods and expectations. *Career development international.*
3. Butz, N.T., Stratton, R., Trzebiatowski, M.E. and Hillery, T.P. (2019), "Inside the hiring process: how managers assess employability based on grit, the big five, and other factors", International Journal of Business Environment, 10(4), tt. 306-328.
4. Clegg, S., Stevenson, J. and Willott, J. (2009), "Extending conceptualisations of the diversity and value of extracurricular activities: a cultural capital approach to graduate outcomes", Project Report, Higher Education Academy.
5. Collings, L.K., 2020. The Impact of Extracurricular Activities and High School Students.
6. Craft, S.W., 2012. *The impact of extracurricular activities on student achievement at the high school level.* The University of Southern Mississippi.
7. Duckworth, A.L., Peterson, C., Matthews, M.D. and Kelly, D.R. (2007), "Grit: perseverance and passion for long-term goals", *Journal of Personality and Social Psychology,* 92(6), t. 1087.
8. Eison, J., (1990). Confidence in the classroom: Ten maxims for new teachers. *College Teaching*, 38(1), tt. 21-25.
9. Hodgson, A.R., Freeston, M.H., Honey, E. and Rodgers, J., 2017. Facing the unknown: Intolerance of uncertainty in children with autism spectrum disorder. *Journal of applied research in intellectual disabilities*, 30(2), tt..336-344.
10. Krishnamurthi, A., Ballard, M. and Noam, G.G., 2014. Examining the Impact of Afterschool STEM Programs. *Afterschool Alliance.*
11. McKinlay, A.R., May, T., Dawes, J., Fancourt, D. and Burton, A., 2022. 'You're just there, alone in your room with your thoughts': a qualitative study about the psychosocial impact of the COVID-19 pandemic among young people living in the UK. *BMJ open,* 12(2), p.e053676.
12. Ng, T.W.H. and Feldman, D.C. (2014), "Subjective career success: a meta-analytic review", *Journal of Vocational Behavior,* 85(2), tt. 169-179, doi: 10.1016/J.JVB.2014.06.001
13. Pember, A., Bolton, C., Sims, D., Straw, S. and Taylor. A. (2019). 2019 Review of the Value of Vocational Qualifications. Slough: NFER.
14. Prince, H.E., 2021. The lasting impacts of outdoor adventure residential experiences on young people. *Journal of Adventure Education and Outdoor Learning,* 21(3), tt. 261-276.
15. Waite, P., Pearcey, S., Shum, A., Raw, J.A., Patalay, P. and Creswell, C., 2021. How did the mental health symptoms of children and adolescents change over early lockdown during the COVID-19 pandemic in the UK? *JCPP advances, 1*(1), t.e12009.



RFCA
Reserve Forces' & Cadets' Association for Wales
Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru

UON
University of Northampton
Institute for Social Innovation and Impact